

Awst 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Emma Giles,
Seth Newman ac Andy Phillips, o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG.

Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

	Crynodeb	6
	Argymhellion	13
1	Nid yw'r dibenion a'r nodau a bennwyd ar gyfer y Rhaglen wedi datblygu ar yr un cyflymder â newidiadau polisi, ond mae Llywodraeth Cymru bellach yn datblygu amcanion strategol newydd	16
	Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y Rhaglen yn rhoi cefnogaeth hanfodol i atal digartrefedd ac ymdrin â thlodi, er na chrybwyllwyd y materion hyn yn eglur yn y dibenion a'r nodau a bennwyd ganddi	17
	Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod goblygiadau i'r Rhaglen yn sgil datblygiadau polisi ehangach, ond rydym wedi nodi pryderon ynghylch graddfa'r newid a'r modd y cyfathrebwyd ynghylch y newid hwnnw	18
	Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gyfres o amcanion strategol ar gyfer y Rhaglen, yn rhan o newidiadau ehangach i'r canllawiau ar ei chyfer	22
2	Ni fu'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r pryderon hirhoedlog ynghylch dyluniad a darpariaeth y Rhaglen yn effeithiol bob tro, a bu'r cynnydd mewn rhai meysydd allweddol yn araf	23
	Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn mwyafrif yr argymhellion a gafwyd mewn adolygiadau o'r Rhaglen a gynhaliwyd ers 2009. Fodd bynnag, cymerwyd mwy o amser na'r disgwyl i weithredu ar rai agweddau, gan gynnwys diwygiadau i ganllawiau'r Rhaglen	24
	Erys pryderon ynghylch effeithiolrwydd ac effaith y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, lle cafwyd cynnydd amrywiol wrth ddatblygu prosiectau a gwasanaethau rhanbarthol	28
	Mae saith mlynedd wedi mynd heibio ers nodi'r angen am newid yn adolygiad Aylward, ond mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau pobl hŷn yn dal heb fod wedi'u seilio ar asesiad o anghenion	31
	Mae'r cynnydd wrth ddatblygu dull o werthuso yn parhau i fod yn araf, felly nid oes gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth ddigon da eto o effaith y Rhaglen	32
	Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban, mae cyllid wedi parhau i gael ei neilltuo, serch hynny, ceir rhai pryderon ynghylch yr effaith ar ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau Cefnogi Pobl yn sgil gostyngiadau i'r gyllideb	42

Nid yw gwaith i aiddosbarthu cyllid i'r ardaloedd lle ceir y mwyaf o angen wedi mynd rhagddo mor gyflym ag a ragwelwyd	48
3 Ceir anghysondebau yn y modd y mae'r Rhaglen yn cael ei rheoli ar raddfa leol a rhanbarthol, a hynny'n rhannol oherwydd natur annigonol y canllawiau gan Lywodraeth Cymru	52
Defnyddir asesiadau o anghenion y sail ar gyfer Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol, ond mae Llywodraeth Cymru wedi canfod bod ansawdd yr asesiadau hyn yn amrywio	53
Dim ond dyraniadau cyllid blynyddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn wedi amharu ar waith cynllunio lleol	54
Gallai canllawiau Llywodraeth Cymru ar gaffael gwasanaethau Cefnogi Pobl fod yn gamarweiniol, ac fe geir peth tystiolaeth bod arferion caffael yn amrywio	56
Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu uchafswm o 10% ar gyfer taliadau rheoli, yn sgil pryderon ynghylch arferion amrywiol	60
Mae Llywodraeth Cymru wedi canfod bod costau cyffredinol gwasanaethau yn amrywio'n helaeth, ond mae angen gwneud gwaith dadansoddi pellach er mwyn deall beth yw ystyr hyn	61
Mewn adolygiadau gan Lywodraeth Cymru, gwelwyd bod ansawdd cyffredinol trefniadau awdurdodau lleol i reoli'r Rhaglen yn amrywio a bod rhai problemau i'w cael yn gysylltiedig â chymhwysedd y cymorth a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu	62
Atodiadau	
Atodiad 1 – Dulliau archwilio	67
Atodiad 2 – Adolygiadau a gwaith ymchwil blaenorol ynghylch y rhaglen Cefnogi Pobl	68
Atodiad 3 – Enghreifftiau o ymagweddau rhanbarthol at brosesau rheoli rhaglen craidd	74
Atodiad 4 – Dyraniadau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol 2013-14 hyd 2016-17	77
Atodiad 5 – Newidiadau i'r gwariant a gynlluniwyd ar draws y categorïau cleient 2013-14 hyd 2016-17	79
Atodiad 6 – Enghreifftiau ar sail astudiaeth achos o effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngwent a Gogledd Cymru	81

Crynodeb

- 1 Mae Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru (y Rhaglen) yn darparu cyllid grant i awdurdodau lleol gyflenwi gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â thai, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddarparwyr trydydd parti. Bwriedir i'r gwasanaethau hyn helpu pobl agored i niwed fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Lanswyd y Rhaglen yn 2003, gan ddisodli sawl ffrwd ariannu cysylltiedig â thai.
- 2 Mae'r Rhaglen yn cefnogi unigolion a theuluoedd o oedrannau amrywiol. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod y Rhaglen yn cefnogi tua 67,000 o bobl.¹ Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi 18 grŵp² penodol o bobl sydd yn gymwys i dderbyn cymorth. Mae grwpiau cymwys yn amrywio rhwng pobl ag anableddau dysgu a chorfforol ac anhwylderau datblygu a dioddefwyr cam-drin domestig, pobl â salwch cronig, problemau iechyd meddwl neu gam-drin sylweddau, hanes o droseddau yn y gorffennol a phobl â statws ffoadur. Mae'r cymorth a ddarperir yn amrywio yn ôl anghenion yr unigolyn. Er enghraifft, bydd rhai'n derbyn cymorth yn seiliedig ar lety, fel lle mewn hostel. Bydd eraill yn derbyn cymorth gyda phroblemau cysylltiedig â thai gan weithiwr cymorth sy'n ymweld â hwy yn eu cartrefi eu hunain.³
- 3 Ar gyfer 2016-17, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £124.5 miliwn yn y Rhaglen. O'r swm hwn, cafodd oddeutu £800.000 ei frigdorri i ariannu ymchwil a datblygu, rolau Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol a rhai swyddi o fewn Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd ychydig dan hanner cyfanswm y cyllid i gefnogi tri grŵp penodol (anableddau dysgu; iechyd meddwl a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth). Y maes gwariant unigol mwyaf a ariannwyd oedd cymorth i bobl ag anableddau dysgu. Derbyniwyd £30.6 miliwn, neu 25% o gyllid y Rhaglen, i'r maes hwnnw (**Dangosyn 1**). Fodd bynnag, roedd amryw o categorïau eraill yn cynnwys nifer fwy o unedau cymorth. Er enghraifft, yr oedd y categori gwasanaethau larwm yn cynnwys oddeutu 25,000 o unedau cymorth (gan gynnwys gofal gwarchod/ychwanegol), a oedd i gyfrif am 2% o wariant y Rhaglen yn unig.
- 4 Rhwng 2013-14 a 2016-17, cafwyd gostyngiad o 8.5% (£11.6 miliwn) yng nghyfanswm y cyllid blynyddol yn nhermau arian parod neu 10.5% (£14.6 miliwn) mewn termau real. Fodd bynnag, mae dyraniadau cyffredinol awdurdodau lleol wedi parhau yr un peth ers 2015-16 yn nhermau arian parod.

1 Amcangyfrif yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer nifer y bobl a gefnogir gan y Rhaglen, tra bo Dangosyn 1 yn cyfrif nifer yr 'unedau' o gymorth a ddarperir drwy'r Rhaglen. Gall pob uned o gymorth sefydlog helpu mwy nag un unigolyn neu deulu yn ystod y flwyddyn. Yn yr un modd, gallai gweithiwr sy'n darparu cymorth wrth gefn ddarparu cymorth i fwy na'r nifer cynlluniedig o unigolion.

2 Yn ychwanegol at yr 18 grŵp penodol o bobl, ceir categori 'cymorth fel y bo'r angen' cyffredinol a chategori i gofnodi gwariant nad oes cysylltiad uniongyrcholl rhyngddo ag 19 o categorïau'r cynllun gwariant. Fel arfer, darperir gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen cyffredinol i amrywiaeth eang o grwpiau cleient a chanddynt lefelau is o angen, ac nid gwasanaeth arbenigol sy'n darparu'r cymorth. Ceir gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen o natur fwy dwys, a ddarperir gan staff a chanddynt faes arbenigol neilltuoel. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i unigolion gael eu cyfrif unwaith yn unig mewn un categori, hyd yn oed os oes ganddynt anghenion lluosog.

3 Gelwir cymorth sy'n seiliedig ar lety yn gymorth 'sefydlog', a gelwir cymorth a dderbyn yng nghartref yr unigolyn yn gymorth 'fel y bo'r angen'.

Dangosyn 1: Dosbarthiad gwariant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn 2016-17 -
dyraniadau awdurdodau lleol

Meysydd â'r gwariant mwyaf	Cyfanswm yr unedau ¹	Cyfanswm y gwariant fesul categori (£ miliynau)	Cost fesul uned (£oedd)	Canran gyffredinol y cyllid
Pobl ag anableddau dysgu	2,847	30.57	10,739	25
Cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd	4,933	15.94	3,232	13
Pobl â phroblemau iechyd meddwl	2,327	13.78	5,922	11
Pobl ifanc ag anghenion cymorth (16-24)	1,523	13.16	8,641	11
Pobl dros 55 oed sydd angen cymorth (heb gynnwys gwasanaethau larwm).	15,666	11.65	743	9
Menywod sy'n profi camdriniaeth ddomestig	1,201	9.04	7,530	7
Categoriâu eraill (cyfanswm) ²	29,146	29.46	1,011	24
Categoriâu eraill (ystod)	31-25,030	0.13-6.43	91-8,609	<0.5-5
Cyfanswm	57,643	123.69	2,060	100

Nodiadau

1 Gallai un 'uned' o gymorth fod yn cefnogi mwy nag un unigolyn neu deulu.

2 Mae rhestr lawn o gategoriâu cymorth ar gael yn Nangosyn A3 yn Atodiad 5.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

- 5 Ers 2009, cafwyd nifer o newidiadau yng nghyfrifoldebau Gweinidogion dros y Rhaglen, ac mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu sawl adolygiad o ddyluniad a chyflawniad y Rhaglen (**Atodiad 2**). Yn sgil yr adolygiad pwysicaf o blith y rhain - a elwir yn aml yn 'Adolygiad Aylward' - cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres newydd o drefniadau i reoli darpariaeth y Rhaglen.⁴
- 6 Un o'r prif ddatblygiadau yn dilyn Adolygiad Aylward oedd cyflwyno un grant unedig, Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Yn flaenorol, roedd awdurdodau lleol yn gweinyddu'r Grant Cefnogi Pobl i ariannu gwasanaethau cymorth tymor hwy yn bennaf. Mae'r gwasanaethau hyn fel arfer yn canolbwyntio ar bobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Ar wahân i hyn, gweinyddodd Llywodraeth Cymru y Grant Refeniw Cefnogi Pobl. Roedd y grant hwn yn ariannu cymorth tymor byrrach, fel hosteli a llochesi i bobl agored i niwed.⁵
- 7 Sefydlodd Llywodraeth Cymru hefyd strwythur llywodraethu newydd (**Dangosyn 2**). Roedd y strwythur newydd yn cynnwys chwech o Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Mae timau Cefnogi Pobl lleol wedi parhau i reoli darpariaeth y Rhaglen ym mhob awdurdod lleol. Mae'r strwythur hwn yn adlewyrchu dyhead Llywodraeth Cymru i ddatblygu a rheoli'r Rhaglen drwy 'gyd-gynhyrchu' - cynnwys pobl a chymunedau wrth ddylunio gwasanaethau cyhoeddus. Cyfeiria swyddogion Llywodraeth Cymru at y ffaith bod y Rhaglen wedi bod ar flaen y gad wrth ddatblygu a chyflenwi polisi mewn modd cydweithredol a chynhwysol. Mae cydgynhyrchu yn adlewyrchu egwyddorion sydd bellach wedi'u hymwreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 8 Ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliad er mwyn canfod a yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i reoli'r Rhaglen Cefnogi Pobl a sicrhau ei bod yn cyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel sydd hefyd wedi'u targedu'n briodol. Rydym wedi ystyried a oes gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae am i'r Rhaglen ei gyflawni a sut y mae wedi rheoli datblygiad y Rhaglen mewn ymateb i'r newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi. Rydym hefyd wedi archwilio effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2012 i ymdrin â phroblemau wrth ariannu a rheoli'r Rhaglen. Mae rhai o'r problemau hyn yn bodoli ers tro. Yn olaf, rydym wedi ystyried rhai materion yn gysylltiedig â chyflenwi'r Rhaglen yn lleol ac yn rhanbarthol. Disgrifir ein dulliau archwilio yn **Atodiad 1**.

4 Syr Mansel Aylward et al, **Y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru: Adroddiad terfynol ar Adolygiad a gomisiynwyd gan Jocelyn Davies AC, Dirprwy Weinidog Tai ac Adfywio**, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tachwedd 2010.

5 Pobl sy'n ffoi rhag trais domestig; pobl ag anableddau dysgu; pobl â phroblemau iechyd meddwl; pobl sy'n dioddef oherwydd dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau; ffoaduriaid; pobl ag anableddau corfforol; pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref; pobl ifanc sy'n gadael gofal; cyn-droseddwy; Pobl â salwch cronig a rhieni sengl agored i niwed.

Dangosyn 2: Y Strwythur Llywodraethu Rhaglen Cyfredol ar gyfer Cefnogi Pobl

<p>Y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl</p>	<p>Yn cynnwys tri aelod annibynnol, Llywodraeth Cymru a chynrychiolaeth o wahanol rannau o lywodraeth leol, y GIG, y sector tai cymdeithasol, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth yn gysylltiedig â thai a gwasanaethau gofal cymdeithasol.</p> <p>Pwrpas cyffredinol y Bwrdd yw sicrhau bod y Rhaglen yn canolbwyntio ar fodloni'r anghenion cysylltiedig â thai sydd gan bobl agored i niwed, a rhoi cyngor annibynnol i Weinidogion Cymru ar gynnydd a rhwystrau.</p>
<p>Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol</p>	<p>Mae pump o'r chwe phwyllgor yn gyson â ffiniau daearyddol un bwrdd iechyd. Yr eithriad i hyn yw Pwyllgor Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Pwyllgor hwnnw'n cynnwys ardaloedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.</p> <p>Mae pob pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, GIG Cymru, y gwasanaeth prawf, darparwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Maent hefyd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Nod cyffredinol y pwyllgorau yw rhoi cyfeiriad strategol i'r Rhaglen ar raddfa ranbarthol. Maent yn atebol i Weinidogion Cymru am gyflenwi'r rhaglen mewn modd cydweithredol yn lleol ac yn ranbarthol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon yn cael eu cyflenwi.</p> <p>Ceir Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol i gefnogi pob pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r rolau hyn a'r awdurdod lleol arweiniol sy'n cydgysylltu ym mhob ranbarth sy'n cyflogi'r cydgysylltwyr.</p> <p>Mae'r pwyllgorau yn gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Strategol Rhanbarthol tair blynedd⁶. Nodir blaenoriaethau strategol y rhanbarth yn y cynllun, ac amlinellir anghenion rhanbarthol, bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth a chynlluniau i ddatblygu gwasanaethau. Y mae hefyd yn cynnwys cynllun gwariant blynyddol y rhanbarth sy'n cyfuno cynlluniau gwariant yr awdurdodau lleol unigol.</p>
<p>Timau Cefnogi Pobl Awdurdod Lleol</p>	<p>Yn derbyn dyraniad grant blynyddol o'r Rhaglen Cefnogi Pobl ac yn contractio'n uniongyrchol â darparwyr cymorth.</p> <p>Maent yn gyfrifol am sicrhau bod amodau grant yn cael eu bodloni drwy gasglu gwybodaeth fonitro, gan gynnwys deilliannau defnyddwyr gwasanaeth cenedlaethol, ac adolygu ansawdd gwasanaethau a pherthnasedd strategol drwy gasglu gwybodaeth ac ymweld â safleoedd.</p> <p>Mae'n ofynnol i dîm Cefnogi Pobl pob awdurdod lleol greu Cynllun Comisiynu Lleol sy'n nodi blaenoriaethau, anghenion a bylchau yn y ddarpariaeth yn lleol, a chynlluniau lleol ar gyfer datblygu gwasanaethau.</p>

6 Daeth Cynlluniau Strategol Rhanbarthol i ddisodli Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol ym mis Ionawr 2017. Y gwahaniaeth sylfaenol yw bod y cynlluniau strategol yn edrych ar gyfeiriad strategol cyffredinol y gwasanaeth yn hytrach na'r unedau o gymorth sy'n cael eu comisiynu.

- 9 **Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn y Rhaglen Cefnogi Pobl er ei dechreuad yn 2003, drwy ariannu'r Rhaglen yn uniongyrchol a thrwy dreulio amser ac adnoddau yn adolygu trefniadau cyflenwi'r Rhaglen. Fodd bynnag, rydym wedi casglu na chafwyd camau effeithiol bob tro i ymdrin â rhai o'r pryderon hirhoedlog ynghylch dyluniad y Rhaglen a'r dull o'i chyflenwi, er bod trefniadau wedi'u hatgyfnerthu. Bu'r cynnydd mewn rhai meysydd yn araf, gan gynnwys sefydlu dealltwriaeth gynhwysfawr a dibynadwy o effaith y Rhaglen. Ceir hefyd anghysondebau yn y modd y mae'r Rhaglen yn cael ei rheoli ar raddfa leol a rhanbarthol, a hynny'n rhannol oherwydd y canllawiau annigonol gan Lywodraeth Cymru.**
- 10 Nid yw'r dibenion a'r nodau a bennwyd ar gyfer y Rhaglen wedi datblygu ar yr un cyflymder â newidiadau polisi. Er enghraifft, nid yw'r pwrpas a'r nodau a bennwyd yn cydnabod yn eglur y pwyslais y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar rôl y Rhaglen wrth helpu i atal digartrefedd a threchu tlodi. Ers 2012, cyflwynwyd newidiadau polisi nodedig sy'n effeithio ar y Rhaglen, gan gynnwys deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar y gwasanaethau cymdeithasol, cenedlaethau'r dyfodol a thai, a pholisi Llywodraeth y DU ar ddiwygio lles. Ond rydym wedi nodi pryderon ynghylch graddfa'r newid a'r modd y cyfathrebwyd ynghylch y newid hwnnw.
- 11 Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ar ganllawiau diwygiedig i'r Rhaglen, gan gynnwys cyfres newydd o amcanion strategol. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar ganol adolygu goblygiadau 'Adolygiad Llety â Chymorth' Llywodraeth y DU, ac effaith hynny ar y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru.
- 12 Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn mwyafrif yr argymhellion a gafwyd mewn adolygiadau o'r Rhaglen a gynhaliwyd ers 2009. Fodd bynnag, cymerwyd mwy o amser na'r disgwyl i weithredu ar rai agweddau, gan gynnwys diwygiadau i ganllawiau'r Rhaglen. Mewn rhai meysydd allweddol, ni fu'r camau a gymerwyd yn effeithiol bob tro, â'r cynnydd yn araf. Barn Llywodraeth Cymru yw mai'r gofynion i reoli'r Rhaglen yn unol ag egwyddorion cyd-gynhyrchu sydd i gyfrif yn rhannol am gyflymder y cynnydd, ond gall yr egwyddorion hynny sicrhau deilliannau gwell.
- 13 Erys pryderon ynghylch effeithiolrwydd ac effaith y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, lle cafwyd cynnydd amrywiol wrth ddatblygu prosiectau a gwasanaethau rhanbarthol. Ar ben hynny, mae saith mlynedd wedi mynd heibio ers nodi'r angen am newid yn adolygiad Aylward, ond mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau pobl hŷn yn dal heb fod wedi'u seilio ar asesiad o anghenion. Mae'r gwasanaethau, yn hytrach, yn tueddu i adlewyrchu darpariaeth y gorffennol yn gysylltiedig â deiliadaeth. Ceir tystiolaeth fod cyfran sylweddol o wasanaethau pobl hŷn yn dal i gael eu comisiynu mewn modd sy'n golygu nad ydynt ond ar gael i denantiaid awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

- 14 Mae'r cynnydd wrth ddatblygu dull o werthuso yn parhau i fod yn araf, felly nid oes gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth ddigon da eto o effaith y Rhaglen. Ym mis Awst 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fframwaith newydd i asesu cynnydd unigolion yn erbyn cyfres benodol o ddeilliannau Rhaglen. Fodd bynnag, ceir sawl cyfyngiad ar y Fframwaith Deilliannau, sy'n ei gwneud hi'n anodd ffurfio barn gynhwysfawr ynghylch llwyddiant y Rhaglen. Ceir hefyd ddiffyg hyder yn y data a gasglwyd.
- 15 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r fframwaith deilliannau mewn ymdrech i ymdrin â rhai o'r pryderon presennol. Fodd bynnag, fel ag y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, mae'n bosibl na fydd y trefniadau diwygiedig yn ymdrin yn llawn â'r pryderon ynghylch y fframwaith a'r data deilliannau cyfredol. Ar wahân i'r gwaith a gyflawnir er mwyn datblygu'r Fframwaith Deilliannau, ceir tystiolaeth bod y Rhaglen yn lleihau'r galw am y gwasanaethau iechyd, er bod y dystiolaeth honno'n brin ar hyn o bryd. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gasglu data pellach ynghylch hyn, yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol.
- 16 Mae cyllid wedi parhau i gael ei neilltuo, yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban. Serch hynny, ceir rhai pryderon ynghylch yr effaith ar ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau Cefnogi Pobl yn sgil gostyngiadau i'r gyllideb.
- 17 Nid yw gwaith i ailddosbarthu cyllid i'r ardaloedd lle ceir y mwyaf o angen wedi mynd rhagddo mor gyflym ag a ragwelwyd. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru fformiwla ariannu newydd ar gyfer 2012-13 a 2013-14, ond dewisodd wedyn i atal y fformiwla honno ar yr un pryd â'r thorri cyllideb y Rhaglen⁷. Ond pe bai'r Llywodraeth wedi parhau i weithredu'r fformiwla, byddai rhai awdurdodau lleol wedi derbyn llawer mwy yn 2016-17, ac eraill wedi derbyn llawer llai, na'u dyraniadau gwirioneddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried gweithredu fformiwla ariannu ddiwygiedig mewn ymateb i argymhelliad oddi wrth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer gwneud hynny wedi'i chytuno, a bydd angen i unrhyw fformiwla newydd bellach fod yn ystyriol o amcanion y rhaglen ddiwygiedig, a bod yn destun ymgynghoriad.
- 18 Mae ansawdd a chysondeb gwaith cynllunio rhanbarthol - drwy broses dadansoddi anghenion - yn amrywio. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dyraniadau blynyddol o'r gyllideb i awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, heb ddarparu unrhyw gyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd wedi hynny. Dywedodd swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl mewn awdurdodau lleol fod cyfnodau ariannu byrdymor fel hyn yn amharu ar eu gallu i gynllunio gwasanaethau tymor hwy, ac yn llesteirio ymdrechion i gydweithio. Mae'r cyfnod byr o amser rhwng cadarnhad Llywodraeth Cymru o'r dyraniadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau gwariant hefyd wedi'i gwneud hi'n anodd i Bwyllgorau

7 Parhaodd Llywodraeth Cymru i ailddosbarthu rhywfaint o gyllid, heb seilio hynny ar fformiwla, yn 2014-15 a 2015-16.

Cydweithredol Rhanbarthol gyfrannu at y cynlluniau a chraffu arnynt yn effeithiol. Fodd bynnag, amlygwyd yn adolygiadau Llywodraeth Cymru ei hun enghreifftiau lle'r oedd awdurdodau lleol wedi cyflwyno nifer sylweddol o gontractau tair blynedd.

- 19 Gallai canllawiau Llywodraeth Cymru ar gaffael gwasanaethau Cefnogi Pobl fod yn gamarweiniol. Y mae peryg iddynt greu disgwyliadau ymhlith darparwyr ynghylch defnyddio estyniadau contract na all awdurdodau lleol eu bodloni o reidrwydd, os yw'r awdurdodau hynny am gydymffurfio hefyd â rheoliadau caffael ehangach. Ceir tystiolaeth bod arferion caffael yn amrywio, gyda rhai awdurdodau lleol yn gwneud mwy o ddefnydd o estyniadau contract nag eraill, yn lle rhoi contractau allan ar dendr.
- 20 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm o 10% ar gyfer taliadau rheoli, ar ôl gweld amrywiaeth helaeth yn natur a graddfa'r gwariant a elwir yn daliadau rheoli. Er bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bod cyfanswm costau'r gwasanaeth yn amrywio'n helaeth, mae angen gwneud gwaith dadansoddi pellach er mwyn deall yr hyn sydd wrth wraidd hynny. Er enghraifft, ystyried data manylach i ystyried i ba raddau y mae gwahaniaethau yn hyd gwasanaethau i gyfrif am yr amrywio hwn.
- 21 Ers mis Ebrill 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o adolygiadau o awdurdodau lleol sydd, mewn rhai achosion, wedi tynnu sylw at bryderon am drefniadau rheoli'r Rhaglen. Mae'r adolygiadau hyn, ynghyd â gwaith manylach gan ddau Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (Gogledd Cymru a Gwent), wedi amlygu rhai problemau yn gysylltiedig â chymhwysedd pobl ag anableddau dysgu i dderbyn cymorth, a gwahaniaethau yn lefel y cymorth a roddir.

Argymhellion

- 22 Mae ein gwaith wedi amlygu ystod o heriau parhaus yn gysylltiedig â dyluniad a darpariaeth y Rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i weithio i weithredu argymhellion adolygiadau blaenorol yn llawer o'r meysydd hyn, gan gynnwys diweddarau canllawiau'r Rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd camau i ymdrin â materion eraill sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft drwy ddiwygio ei dull cyfredol o fesur deilliannau'r Rhaglen, er inni nodi nad yw'r cynigion sydd ar ddod o bosib yn ymdrin yn llawn â'r cyfyngiadau yn y fframwaith deilliannau cyfredol.

Argymhellion

- 1 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dyraniadau blynyddol o'r gyllideb i awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, heb ddarparu unrhyw gyllidebau dangosol ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny. Gan adlewyrchu'r argymhellion a wnaethom yn rhai o'n hadroddiadau blaenorol, a chan gydnabod yr ansicrwydd ynghylch referniw Llywodraeth Cymru ei hun, **argymhellwn y canlynol:**
- **fod Llywodraeth Cymru, ar y cyfle cyntaf, yn ailgyflwyno dyraniadau cyllid tair blynedd ar gyfer Cefnogi Pobl er mwyn cynorthwyo'r awdurdodau lleol i gynllunio; ac**
 - **ar yr un pryd, yn ystyried rhinweddau symud tuag at gynlluniau gwariant blynyddol treigl tair blynedd o fewn awdurdodau lleol, i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth gynllunio gwasanaethau a galluogi mwy o waith craffu gan Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.**
- 2 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cynllunio a chyflenwi mwy o wasanaethau ar raddfa ranbarthol yn rhan o'i pholisi i ddiwygio llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl wedi'i chael hi'n anodd cyflenwi ar raddfa a chyflymder a fyddai wedi bodloni Llywodraeth Cymru. **Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:**
- **yn nodi a chymhwyso'r gwersi a ddysgir o brofiad y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn sail ar gyfer ei chynigion i ddiwygio llywodraeth leol; ac**
 - **yn adolygu a yw trefniadau'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn parhau i fod yn addas i'r diben yng nghyd-destun trefniadau llywodraethu cydweithredol eraill, fel y byrddau gwasanaeth cyhoeddus statudol newydd, a'i chynlluniau ehangach ar gyfer gwaith ranbarthol mewn llywodraeth leol.**

Argymhellion

- 3 Bellach, mae'r Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl wedi cydnabod yr angen am fformiwla newydd er mwyn helpu i aiddosbarthu'r rhaglen i'r ardaloedd daeryddol lle ceir y mwyaf o angen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar amcanion strategol ar gyfer y Rhaglen. **Cyn gynted ag y mae wedi cwblhau amcanion strategol newydd y Rhaglen yn derfynol, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru roi'r flaenoriaeth i ddatblygu fformiwla ariannu newydd i aiddosbarthu arian mewn modd sydd yn cyflawni'r amcanion hynny yn fwyaf effeithiol. Wrth wneud hynny, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth i unrhyw drefniadau trosiannol ac unrhyw ddatblygiadau ehangach o ran polisi a allai effeithio ar y Rhaglen.**
- 4 Gallai ganllawiau cyfredol a'r drafft o ganllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer caffael gwasanaethau Cefnogi Pobl fod yn gamarweiniol, gan eu bod yn awgrymu nad oes angen ail-dendro gwasanaeth ond os canfyddir bod y gwasanaeth hwnnw yn ddiffygiol wrth ei adolygu. **Argymhellwn y canlynol:**
- **y dylai adolygiadau parhaus Llywodraeth Cymru o reolaeth awdurdodau lleol dros y Rhaglen archwilio a yw contractau'n cael eu hestyn yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus; ac**
 - **wrth adolygu ei ganllawiau ar gyfer y Rhaglen, y dylai Llywodraeth Cymru aiddrafftio ei gyngor ynghylch caffael contractau er mwyn osgoi'r posibilrwydd o unrhyw gamddehongliad ynghylch pryd i ail-dendro gwasanaethau, a rhoi esboniad clir o'r rheolau yn gysylltiedig ag estyn contractau.**
- 5 Bu nifer o newidiadau nodedig o ran polisi yn y blynyddoedd diwethaf sydd yn effeithio ar y Rhaglen. Fodd bynnag, rydym wedi nodi pryderon ynghylch graddfa'r newid a'r modd y cyfathrebwyd ynghylch y newid hwnnw. Yn ogystal â hyn, bydd datblygiadau eraill yn effeithio ar y Rhaglen, er enghraifft, cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol a threfniadau llywodraeth y DU i ddiwygio budd-dal tai. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru nodi goblygiadau'r diwygiadau hynny o ran y Rhaglen, a chyfathrebu'n glir ynghylch hynny.**
- 6 Er bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bod cyfanswm costau'r gwasanaeth yn amrywio'n helaeth, mae angen gwneud gwaith dadansoddi pellach er mwyn deall yr hyn sydd wrth wraidd hynny. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i archwilio'n fanylach a yw costau cyflenwi gwasanaethau Cefnogi Pobl o fath neu o hyd tebyg yn amrywio'n sylweddol.**

Argymhellion

- 7 Erys pryderon ynghylch ansawdd data yn y fframwaith deilliannau cyfredol, ond cynigir trefniadau diwygiedig ar gyfer casglu data. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i bartneriaid i sicrhau dealltwriaeth glir ymhlith darparwyr o unrhyw drefniadau newydd, ar ôl eu cyflwyno, a bod y trefniadau hynny'n cael eu hymwreiddio yn rhan o drefniadau contract.**
- 8 Yn adolygiadau Llywodraeth Cymru, ac mewn gwaith manylach ar raddfa ranbarthol gan ddau o'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, amlygwyd rhai problemau'n gysylltiedig â chymhwysedd pobl ag anableddau dysgu i dderbyn cymorth, a gwahaniaethau yn lefel y cymorth a ddarperir. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru annog yr holl Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i adolygu'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth i bobl ag anableddau dysgu drwy'r Rhaglen, a gweithio gyda'r pwyllgorau i reoli unrhyw ganlyniadau negyddol posibl o ran darpariaeth gwasanaeth.**

Rhan 1

Nid yw'r dibenion a'r nodau a bennwyd ar gyfer y Rhaglen wedi datblygu ar yr un cyflymder â newidiadau polisi, er bod Llywodraeth Cymru bellach yn datblygu amcanion strategol newydd



- 1.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, ystyrir a yw Llywodraeth Cymru wedi cyfleu nodau a blaenoriaethau'r Rhaglen yn glir. Y mae hefyd yn ystyried sut mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli datblygiad y Rhaglen mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y Rhaglen yn rhoi cefnogaeth hanfodol i atal digartrefedd ac ymdrin â thlodi, er na chrybwyllwyd y materion hyn yn eglur yn y dibenion a'r nodau a bennwyd ganddi

- 1.2 Yn ôl Canllawiau 2013 Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen, diben y Rhaglen yw darparu 'cymorth cysylltiedig â thai i helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl'.⁸ I gyd-fynd â'i datganiad o ddiben, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu chwe nod ar wefan Cefnogi Pobl:
- a helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw mor annibynnol ag y bo modd;
 - b rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, mewn hosteli, tai â chymorth⁹ neu dai arbenigol eraill;
 - c atal problemau yn y lle cyntaf neu roi help mor gynnar ag y bo modd er mwyn osgoi rhoi cymaint o bwysau ar wasanaethau eraill megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
 - ch rhoi help ochr yn ochr â'r gofal personol neu feddygol fydd ei angen ar rai pobl;
 - d sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu mor effeithiol ac mor effeithlon ag y bo modd drwy sicrhau bod sefydliadau sy'n cynllunio ac yn cyllido gwasanaethau a chyrff sy'n darparu gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd; a
- dd hybu cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldeb.
- 1.3 Nid yw yr un nod uchod yn cyfeirio'n benodol at atal digartrefedd. Serch hynny, mewn manau eraill, mae Llywodraeth Cymru'n datgan yn glir bod gan y Rhaglen rôl allweddol o ran atal digartrefedd. Er enghraifft, yng **Nghynllun Digartrefedd Deng Mlynedd Cymru (2009-19)** nodir 'Mae gan y Rhaglen Cefnogi Pobl ran hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o atal digartrefedd cychwynnol ac ailadroddus trwy ddarparu gwasanaethau a all helpu aelwydydd neu unigolion sy'n agored i niwed ymdrin â'u hanghenion o ran llety a chymorth'. Yn ogystal a hyn, nodwyd yn adroddiad blynyddol

8 Llywodraeth Cymru, **Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl-Cymru**, Mehefin 2013

9 Mae tai gwarchod yn y cyd-destun hwn yn golygu llety i bobl sydd, mewn rhai achosion, dros eu hanner cant, lle ceir gwasanaeth warden preswyl, system gyfathrebu a rhai cyfleusterau cyffredin.

Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau yn 2016 'Mae'r Rhaglen yn darparu cymorth hanfodol i bobl sydd mewn amgylchiadau anodd iawn, yn enwedig pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn ogystal ag atal digartrefedd, mae'r Rhaglen yn darparu cymorth sy'n ymwneud â thai i grwpiau amrywiol, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, angen iechyd meddwl a menywod sy'n ffoi rhag cam-drin domestig'.¹⁰

- 1.4 Ni chyfeirir yn benodol at drechu tlodi yn y nodau uchod ychwaith. Eto i gyd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r Rhaglen fod yn allweddol i'w helpu i ymdrin â thlodi. Er enghraifft, yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi nodir bod gan y Rhaglen Cefnogi Pobl ran i'w chwarae er mwyn cyrraedd targedau trechu tlodi, ond nid yw'n manylu ar faint y cyfraniad disgwylidig.¹¹

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod goblygiadau i'r Rhaglen yn sgil datblygiadau polisi ehangach, ond rydym wedi nodi pryderon ynghylch graddfa'r newid a'r modd y cyfathrebwyd ynghylch y newid hwnnw

- 1.5 Ers 2012, yr oedd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar y gwasanaethau cymdeithasol, cenedlaethau'r dyfodol a thai, a pholisi Llywodraeth y DU ar ddiwygio lles ymhlith y newidiadau polisi nodedig sy'n effeithio ar y Rhaglen (**Bocs 1**). Yn ogystal â hyn, ceir goblygiadau i ddyfodol y Rhaglen yn sgil adolygiad diweddar y Llywodraeth o lety â chymorth¹² a'r cynigion a wnaed yn ei sgil. O fis Ebrill 2019, bydd budd-dal tai yr holl denantiaid sydd yn byw mewn llety â chymorth yn cael ei gapio ar gyfradd is. Effaith capio lefel y budd-dal tai, a ddefnyddir i dalu elfen rhent a thaliadau gwasanaeth cynlluniau llety â chymorth, fydd creu diffyg cyllid.
- 1.6 Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn derbyn digon o gyllid i lenwi'r bwlch hwn. Heb sicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer y rhenti a'r elfen taliadau gwasanaeth, mae nifer o gynlluniau llety â chymorth wedi dweud y byddant yn debygol o fethu cynnal eu busnes. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru ar ganol adolygu goblygiadau'r Adolygiad Llety â Chymorth ar y cyd â rhanddeiliaid, ac effaith yr adolygiad hwnnw ar y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru.

10 Llywodraeth Cymru, **Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau 2016**, Mawrth 2017

11 Llywodraeth Cymru, **Creu Cymunedau Cryf, Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi - Adroddiad Blynyddol 2014**, Gorffennaf 2014

12 Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, **Supported accommodation review – The scale, scope and cost of the supported housing sector [Saesneg yn unig]**, Tachwedd 2016

Bocs 1: Diwygiadau deddfwriaeth a pholisi allweddol sy'n berthnasol i'r Rhaglen

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)

Yn anelu i wella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, yn ogystal â gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynnal cyd-asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr. Mae hyn yn creu cyfleoedd i gyfuno'r gwaith hwn â gweithgarwch i gynhyrchu dadansoddiad o anghenion ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Yn anelu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn y presennol ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, drwy roi lle creiddiol ym mhob penderfyniad i'r egwyddor o ddatblygu'n gynaliadwy. Un elfen allweddol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw ffocws ar atal, sy'n cyd-fynd yn agos ag un o nodau canolog y Rhaglen Cefnogi Pobl ([paragraff 1.2c](#)).

Ddeddf Tai (Cymru) (2014)

Yn anelu i wella ansawdd a safonau tai yng Nghymru, a'r cyflenwad ohonynt. Yn cynnwys dyletswydd newydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn disgwyl i'r Rhaglen Cefnogi Pobl gael ei defnyddio i atal digartrefedd ([paragraff 1.3](#)). Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad interim o'r modd y caiff y rhan o'r Ddeddf sy'n ymdrin ag atal digartrefedd ei gweithredu.¹³ Cyn hynny, comisiynodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi astudiaeth ddichonoldeb er mwyn canfod y ffordd orau o werthuso effaith y Rhaglen ar ddigartrefedd.¹⁴

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015)

Yn anelu i wella'r ymateb o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru i bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn rhoi cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i wella'r trefniadau i atal a hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais sy'n seiliedig ar ryw, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol, ac i amddiffyn a chefnogi'r rhai sy'n dioddef yn sgil y troseddau hynny.

Diwygiadau i bolisi lles Llywodraeth y DU

Yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012, cyflwynwyd cyfres o ddiwygiadau i system fudd-daliadau'r DU. Mae tystiolaeth a gasglwyd gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru yn awgrymu y bydd diwygiadau lles yn taro'r cymunedau mwyaf difreintiedig a'r grwpiau mwyaf agored i niwed galetaf, gan greu mwy o ddyled a thlodi.¹⁵ Mae'r sefyllfa yn debygol o greu cynnydd yn y galw am wasanaethau Cefnogi Pobl ymhlith pobl sydd angen cymorth i reoli eu materion ariannol. Yn fwy diweddar, mae potensial i Adolygiad Llety â Chymorth Llywodraeth y DU ([paragraff 1.5](#)), a'r cynigion sydd wedi codi ohono, gael effaith sylweddol ar y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru yn y dyfodol.

¹³ Llywodraeth Cymru, **Gwerthusiad ôl-weithredol o'r ddeddfwriaeth digartrefedd (Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014): Adroddiad Interim**, Awst 2017

¹⁴ Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, **Evaluating the Contribution the Supporting People Programme makes to Preventing and Tackling Homelessness- Feasibility Study [Saesneg yn unig]**, Mehefin 2015

¹⁵ Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, **The Impact of Welfare Reform on Housing Policy in Wales: A Rapid Evidence Review [Saesneg yn unig]**, Awst 2015

- 1.7 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad ffurfiol eto o nodau'r Rhaglen mewn ymateb i'r agenda bolisiau newidiol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi pennu agenda ehangol a chynyddol gymhleth ar gyfer awdurdodau lleol. Ers cyhoeddi canllawiau'r Rhaglen yn 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio nifer o ddulliau eraill i gyfleu ei disgwyliadau o'r Rhaglen yn sgil datblygiadau polisi ehangach. Yn benodol, y mae wedi cyflwyno newidiadau i delerau ac amodau grantiau, ac wedi anfon llythyrau amrywiol sy'n trafod gwahanol faterion ar wahanol adegau, sy'n gofyn i awdurdodau leol ddatblygu gwasanaethau Cefnogi Pobl sydd:
- a yn rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd ac ymyrraeth gynnar;
 - b yn mynd i'r afael â thlodi drwy roi cyfle i bobl ganfod swydd ac/neu hyfforddiant ac ennill sgiliau, a thrwy sicrhau gwell aliniad â rhaglenni Trechu Tlodi eraill Llywodraeth Cymru, sef Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf;
 - c helpu i leihau'r defnydd o lety Gwely a Brecwast ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed, a rhoi cefnogaeth well i'r bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol y tybir bod risg iddynt hwy eu hunain fod yn ddigartref;
 - ch darparu cefnogaeth ataliol lefel isel a chanolig 'i bobl sy'n profi cam-drin domestig, nad yw o reidrwydd yn gymorth cysylltiedig â thai'; a
 - d mynd i'r afael â chanlyniadau diwygiadau lles Llywodraeth y DU.
- 1.8 Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Rhagfyr 2015, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o adolygiadau o lwyddiant awdurdodau lleol wrth gyflenwi'r Rhaglen. Ym **mharagraffau 3.29-3.33** a **Bocs 8** ar dudalen 63 ceir mwy o fanylion ynghylch cwmpas yr adolygiadau hynny a'r canfyddiadau. Mae'r adolygiadau hyn wedi codi rhai materion y mae'n anodd i awdurdodau lleol eu datrys. Er enghraifft ynghylch cymhwysedd ariannu rhai o'r gwasanaethau anabledau dysgu. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid Cefnogi Pobl i gynnal gwasanaethau anghymwys i bobl ag anabledau dysgu. Mewn cyfnod o lymder ariannol, gallai fod yn anodd i awdurdodau lleol gael hyd i ffynonellau eraill o arian er mwyn parhau i allu darparu'r gefnogaeth a dybir yn anghymwys.
- 1.9 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu nifer o adolygiadau ynghylch y Rhaglen, y mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau lleol i'w hystyried wrth ddatblygu gwasanaethau (**Atodiad 2**). Ceir gwybodaeth bellach i randdeiliaid am ddatblygiadau sy'n berthnasol i'r Rhaglen ym mwletin rheolaidd Llywodraeth Cymru ar Cefnogi Pobl. Er enghraifft, nodwyd ym mwletin mis Medi 2016 fod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol eisiau i'r Rhaglen ddatblygu ffyrdd i ymdrin â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, fel camdriniaeth ddomestig a chamddefnyddio sylweddau.

- 1.10 Er bod lefelau ariannu wedi parhau'n sefydlog yn nhermau aran parod ers 2015-16, daw'r disgwyliadau hyn ar adeg pan fo pryderon o hyd ynghylch y pwysau ar gyllidebau rhaglenni, gyda rhai timau Cefnogi Pobl yn brin o adnoddau staff. Dywedodd rhai swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl wrthym am yr heriau y maent yn eu profi wrth reoli'r Rhaglen, pan fo gwneud hynny yn gyfrifoldeb sydd yn cystadlu â sawl cyfrifoldeb arall sydd ganddynt. Yn adolygiadau Llywodraeth Cymru ei hun codwyd pryderon ynghylch lefel y staff mewn rhai awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, canfu'r adolygiadau fod prinder staff yn amharu ar allu awdurdodau lleol i fonitro a gwerthuso gwasanaethau mewn modd cadarn ([paragraff 3.32](#)).
- 1.11 Mynegodd swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl, ac i raddau llai, Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Cydweithredol Rhanbarthol, ystod o broblemau wrthym ynghylch rheoli'r Rhaglen mewn amgylchedd polisi cymhleth sydd yn newid yn gyflym. Y pryder mwyaf cyffredin oedd bod Llywodraeth Cymru, o ehangu'r agenda i gynnwys materion fel cyfeirio at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, a darparu cymorth heb fod yn gysylltiedig â thai i ddiodefwyr camdrin domestig, yn gwano amcanion y Rhaglen, ac yn creu dryswch ynghylch blaenoriaethau'r Rhaglen. Fodd bynnag, roedd rhai yn ystyried bod Llywodraeth Cymru yn dawel bach yn ceisio cyfyngu ar ddibenion cyffredinol y Rhaglen. Yn benodol, ystyriai rhai fod Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r Rhaglen fel nad oedd mwyach yn cyflenwi gwasanaethau i annog pobl i fyw'n annibynnol, ond yn canolbwyntio ar atal digartrefedd yn unig. Yn ein barn ni, mae'r safbwyntiau gwrthgyferbyniol hyn yn tarddu o ddiffyg eglurder ynghylch prif ddiben y Rhaglen. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu bod canllawiau diwygiedig y Rhaglen yn ail-ddatgan pwysigrwydd y Rhaglen er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol ([Bocs 2](#)).
- 1.12 Dyma rai o'r pryderon eraill a fynegwyd:
- wrth i Lywodraeth Cymru ofyn i awdurdodau lleol ymateb i nifer o flaenoriaethau a oedd yn dod i'r amlwg dros gyfnod cymharol fyr, roedd rhai o'r farn nad oedd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i gymhlethdod y broses o newid gwasanaethau i adlewyrchu blaenoriaethau newydd.
 - teimlai rhai o'r cyfweleion fod tensiwn rhwng asesiadau anghenion lleol a rhanbarthol a gwaith cynllunio gwasanaethau a'r disgwyliadau oedd yn cael eu pennu o'r top i lawr gan Lywodraeth Cymru.
 - at ei gilydd, cafwyd safbwyntiau cadarnhaol ynghylch swyddogion yn nhîm Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mynegai swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl rwystredigaeth yn aml ynghylch lefel yr arweiniad gan swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch sut i drosi blaenoriaethau sydd yn codi yn newidiadau ar lawr gwlad.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gyfres o amcanion strategol ar gyfer y Rhaglen, yn rhan o newidiadau ehangach i'r canllawiau ar ei chyfer

- 1.13 Ym mis Mai 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen er mwyn ymgynghori arnynt. Bwriad Llywodraeth Cymru yw i'r canllawiau newydd ganolbwyntio mwy ar 'gyfeiriad strategol' y Rhaglen. I'r perwyl hwn, mae'r canllawiau drafft yn cynnwys cyfres o amcanion strategol (Bocs). Trefnwyd ymgynghoriad ar y canllawiau ym mis Rhagfyr 2015 yn wreiddiol, ond cafwyd oedi yn sgil cyfyngiadau ar adnoddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid. Llywodraeth Cymru a luniodd y canllawiau, drwy gydweithrediad â sefydliadau partner sydd yn ymwneud â chyflenwi'r Rhaglen.
- 1.14 Wrth lunio drafft yr amcanion strategol, ystyriodd Llywodraeth Cymru yr angen i gyfleu mewn modd mwy eglur sut y byddai'r Rhaglen yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried effeithiau'r tirlun newidiol o ran polisi ar y Rhaglen (**Bocs 1**).

Bocs 2: Amcanion strategol drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen

Cyhoeddwyd yr amcanion strategol drafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mai 2017. Yn ôl yr amcanion hynny, dylai'r Rhaglen sicrhau 'effaith y gellir ei dangos a seiliedig ar dystiolaeth ar fywydau pobl', drwy:

- Atal digartrefedd lle bynnag y bo'n bosibl.
- Cynorthwyo pobl i feithrin sgiliau ar gyfer bywyd er mwyn ffynnu'n annibynnol, yn eu cartrefi eu hunain ac yn rhan o'u cymunedau.
- Cynorthwyo pobl i feithrin eu llesiant a'u cydnerthedd i ymdrin â siociau, straeniau ac ansicrwydd yn eu bywydau
- Lleihau'r galw ar wasanaethau eraill
- Cynorthwyo pobl i symud allan o dlodi.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau i sicrhau'r effaith fwyaf posibl
- Cyflawni perthnasoedd gwell trwy weithio mewn partneriaeth, ar draws ffiniau rhwng sefydliadau, polisïau a sectorau.
- Osgoi neu liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar Ganllawiau a Fframwaith Deilliannau'r Rhaglen Cefnogi Pobl, Mai 2017

Rhan 2

Ni fu'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r pryderon hirhoedlog ynghylch dyluniad a darpariaeth y Rhaglen yn effeithiol bob tro, a bu'r cynnydd mewn rhai meysydd allweddol yn araf



- 2.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad archwilir ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adolygiadau o'r Rhaglen a gomisiynwyd ers 2009. Ystyrir a gafwyd y manteision a fwriadwyd yn sgil camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru a'i bartneriaid. Barn Llywodraeth Cymru yw mai'r gofynion i reoli'r Rhaglen yn unol ag egwyddorion cyd-gynhyrchu sydd i gyfrif yn rhannol am arafwch y cynnydd, ond gall yr egwyddorion hynny sicrhau deilliannau gwell.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn mwyafrif yr argymhellion a gafwyd mewn adolygiadau o'r Rhaglen a gynhaliwyd ers 2009, er ei bod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i weithredu rhai camau, gan gynnwys diwygiadau i ganllawiau'r Rhaglen

- 2.2 Ers 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu pum adolygiad o'r Rhaglen (**Atodiad 2**):
- a **'Adolygiad Aylward'** (2010)
 - b Cynllun Llywodraethu (2013)
 - c **Adolygiad annibynnol o Flwyddyn Drosiannol y Rhaglen Cefnogi Pobl** (2014)
 - d **Supporting People programme management charges within Supporting People service provision (Saesneg yn unig)** (2015)
 - e **Cefnogi Pobl: Gwasanaethau Pobl Hŷn** (2016)
- 2.3 Derbyniodd Llywodraeth Cymru 22 o 25 o argymhellion Adolygiad Aylward yn llawn; gwrthododd un o'r argymhellion yn llwyr¹⁶, a derbyniodd elfennau o ddau argymhelliad arall yn rhannol. Ym mis Awst 2012, lansiodd Llywodraeth Cymru Raglen Cefnogi Pobl newydd ac ym mis Mehefin 2013, lluniodd ganllawiau newydd ar gyfer y Rhaglen. Roedd y Rhaglen newydd yn cynnwys:
- a grant sengl unedig i ddisodli'r ddau grant Cefnogi Pobl blaenorol;
 - b cyfres newydd o drefniadau llywodraethu lle ceir chwe Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol¹⁷ sy'n gyfrifol am gynlluniau byrdymor,

¹⁶ Cynigiai adolygiad Aylward y dylid cynnwys y Rhaglen Cefnogi Pobl o fewn y fframwaith rheoleiddio cymdeithasau tai. Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn gan fod y Rhaglen y tu hwnt i gwmpas y swyddogaeth rheoleiddio ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

¹⁷ Fel mesur dros dro, roedd adolygiad Aylward wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu 22 o bwyllgorau cydweithredol wedi'u seilio ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth Cymru sefydlu pwyllgorau rhanbarthol ar unwaith, a chyflwyno chwe Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Yn sgil y penderfyniad hwn, gosodwyd y Rhaglen ar y rheng flaen i weithredu'r ffocws polisi cynyddol ar waith rhanbarthol.

tymor canolig a hirdymor, a Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl i roi cyngor a gwybodaeth i'r Gweinidog;

c fformiwla ariannu i ailddosbarthu cyllid y Rhaglen i'r ardaloedd lle mae'r mwyaf o angen;

ch trefniadau i awdurdodau lleol arolygu darparwyr bob tair blynedd; a

d 'Fframwaith Deilliannau' er mwyn helpu i nodi effeithiau y Rhaglen.

2.4 Roedd dull Llywodraeth Cymru o weithredu argymhellion Adolygiad Aylward wedi'i strwythuro'n dda. Dangosai hefyd barodrwydd Llywodraeth Cymru i gydweithio er mwyn creu gwelliannau. Dangosai'r penderfyniadau a gymerodd Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r argymhellion hyn hefyd ymrwymiad i wneud cynnydd mewn rhai meysydd anodd, ee, o ran y fformiwla ariannu a gwaith rhanbarthol.

2.5 Roedd adolygiad Aylward hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu proses achredu genedlaethol ar gyfer pob darparydd, gan gynnig mynediad cyflym i ddarparwyr a oedd eisoes wedi'u hachredu. Datblygodd Llywodraeth Cymru ddrafft o fframwaith achredu, ac roedd canllawiau'r Rhaglen yn 2013 yn cyfeirio at achredu. Fodd bynnag, penderfynodd y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl nad oedd angen y fframwaith achredu. Sail resymegol y Bwrdd oedd bod awdurdodau lleol yn monitro contractau darparwyr a bod trefniadau adolygu allanol eraill yn bodoli i adolygu rhai darparwyr. Y lle hynny, cynigiodd y Bwrdd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu storfa o wybodaeth ynghylch trefniadau llywodraethu, sefydlogrwydd ariannol a strwythur trefniadol darparwyr oedd yn ymgeisio am gyllid Cefnogi Pobl. Hyd yma, ni fu gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau o ran staff i fwrw ymlaen â gwaith ar y storfa.

2.6 Mewn ymateb i adolygiad y **Cynllun Llywodraethu**, o fis Ebrill 2016 mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud hi'n ofynnol i'r prif sefydliadau sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth 'er mwyn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'r Rhaglen yn cael eu datblygu, eu cyflenwi, eu gweithredu, eu gweinyddu a'u rheoli yn effeithiol ac effeithlon ac mewn modd strategol'. Fodd bynnag, cymerodd dros ddwy flynedd i gwblhau i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i'n cyfweleion a oedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn debygol o gynyddu effeithiolrwydd gwaith rhanbarthol, ac ni themlai yr un cyfwelai y byddai'r Memorandwm yn cael unrhyw effaith.

- 2.7 Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o'r 18 o argymhellion yn **Adolygiad Annibynnol Blwyddyn Drosiannol y Rhaglen Cefnogi Pobl**.¹⁸ Roedd deg o'r argymhellion yn trafod materion a oedd yn gysylltiedig â'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (**Bocs 3**). Datblygodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad. Mae rhai camau gweithredu wedi'u cwblhau ac fe gafwyd rhywfaint o gynnydd yn erbyn yr holl argymhellion a dderbyniwyd. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o lithriant hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion drwy ei chanllawiau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen. Er enghraifft, yr angen i esbonio gweledigaeth strategol y Rhaglen ac am gyfres newydd o 'amcanion strategol' (**Bocs 2**). Fel y nodwyd ym **mharagraff 1.13**, cymerwyd mwy o amser na'r disgwyl i lunio'r canllawiau.

Bocs 3: Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adolygiad Annibynnol 2014 ynghylch y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol

Yn fras, roedd a wnelo argymhellion yr adolygiad â'r canlynol:

- aelodaeth y Pwyllgorau a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol sy'n gweithio i gefnogi'r Pwyllgorau;
- dull Llywodraeth Cymru o gyfleu ei disgwyliadau wrth y Pwyllgorau, ac o gefnogi, mesur a goruchwyllo'r hyn a gyflawnir gan y Pwyllgorau mewn ymateb i'r disgwyliadau hynny; a'r
- ffordd y mae'r Pwyllgorau'n ymgysylltu â strwythurau rhanbarthol eraill sy'n gweithredu mewn meysydd polisi eraill, fel iechyd a gofal cymdeithasol.

Ym mis Mawrth 2015, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i barhau â strwythur y chwe Phwyllgor rhanbarthol a Bwrdd Cyngori Cenedlaethol. Hefyd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddiweddarau canllawiau'r Rhaglen i adlewyrchu'r argymhellion yn yr adolygiad a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.

¹⁸ Ni dderbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad y dylid cael gwared â'r cyfarwyddyd yng Nghanllawiau'r Rhaglen i benodi defnyddiwr gwasanaeth i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, a chaniatáu i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud yn lleol.

- 2.8 Mewn ymateb i adolygiad 2015 **Supporting People Programme Management Charges within Supporting People service Provision**, cyflwynodd Llywodraeth Cymru uchafswm 'cydymffurfio neu esbonio' o 10% ar daliadau rheoli. Mae tystysgrif archwilio 2016-17 yn ei gwneud hi'n ofynnol i archwilwyr mewnol awdurdodau lleol ardystio bod taliadau rheoli gwasanaethau Cefnogi Pobl yn 10% neu lai, neu sicrhau eu bod yn erbyn esboniad ysgrifenedig am daliadau uwch na hynny. Dyma gamau eraill a gymerwyd mewn ymateb i adolygiad 2015:
- a Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddogfennau gyda darparwyr gwasanaeth a landlordiaid i drafod yr adroddiad a'r modd y byddai'n gweithredu'r argymhellion.
 - b Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ei hail gylch o adolygiadau o agweddau ar drefniadau awdurdodau lleol i gyflenwi'r Rhaglen (**Bocs 8** ar **dudalen 63**). Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys archwiliad o'r ymagwedd at gostau rheoli.
 - c yn y canllawiau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mai 2017, eglurwyd faint o'r gwariant y gellid ei ddangos fel taliadau rheoli.
- 2.9 Yn adolygiad 2016 **Cefnogi Pobl: Gwasanaethau Pobl Hŷn** gwnaed naw argymhelliad, yr oedd saith ohonynt wedi'u cyfeirio at Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth. Serch hynny, nodai'r adolygiad y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy cyson wrth fonitro cynnydd Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol o ran cyflenwi gwasanaethau i bobl hŷn sydd yn seiliedig ar eu hanghenion, yn hytrach na bod y gwasanaethau hynny'n adlewyrchu'r math o ddeiliadaeth sydd ganddynt.¹⁹ Awgrymai'r adolygiad y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at sicrhau gwasanaethau i bobl hŷn sydd yn 'niwtral o ran deiliadaeth. Y mae bellach yn gwneud hyn, er bod y data yn parhau i fod yn anghyflawn (**paragraff 2.20**).
- 2.10 Roedd adroddiad 2016 hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei ddull o werthuso effeithiau, er mwyn iddi gael cipolwg mwy effeithiol o brofiadau pobl hŷn a gefnogir drwy'r Rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ddiwygio ei dull o werthuso'r Rhaglen (**paragraff 2.35**). Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiynau ynghylch sut i asesu effeithiau'r Rhaglen ar bobl sy'n derbyn gwasanaethau tymor hwy. Nodir yn yr ymgynghoriad bod y rhai sy'n derbyn gwasanaethau hirdymor yn debygol iawn o fod yn bobl hŷn a phobl ag anabledd dysgu.

¹⁹ Argymhellai adolygiad Aylward yn 2010 y dylai'r 'meini prawf ar gyfer pobl hŷn sy'n derbyn cyllid Cefnogi Pobl fod yn seiliedig ar angen yn hytrach nag oed neu ddeiliadaeth'.

Erys pryderon ynghylch effeithiolrwydd ac effaith y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, lle cafwyd cynnydd amrywiol wrth ddatblygu prosiectau a gwasanaethau rhanbarthol

- 2.11 Mae'r prif bryderon a'r heriau o ran effeithiolrwydd Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a nodwyd yn Adolygiad Annibynnol 2014 yn bodoli o hyd. Ystyrir yn eang gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill mai Pwyllgorau Gwent a Gogledd Cymru sydd yn gweithredu'n fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achosion hyn codwyd pryderon yn ein cyfweliadau â swyddogion allweddol ynghylch biwrocratiaeth ychwanegol a gwerth am arian y trefniadau pwyllgor gan fod yr enillion yn brin.
- 2.12 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol adrodd ar eu gwaith rhanbarthol ac is-ranbarthol, a'r modd y mae'r gwaith hwn wedi datblygu ers y cyfnod adrodd blaenorol. Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2014 a 31 Mawrth 2015, casglodd Llywodraeth Cymru fod y rhan fwyaf o'r adborth yn canolbwyntio ar waith a gyflawnwyd i alinio arferion gweithio. Yn yr un asesiad, daethpwyd i'r casgliad y bu datblygiad prosiectau rhanbarthol ac is-ranbarthol ers y cyfnod adrodd blaenorol yn siomedig, a bod cyfleoedd i wella effeithlonrwydd drwy weithio'n rhanbarthol wedi'u colli.
- 2.13 Ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad ei hun o adroddiadau blynyddol 2015-16. Yn lle hynny, rhoddodd y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl gyfarwyddyd i'w is-grŵp llywodraethu i adolygu'r adroddiadau blynyddol hyn. Cyrhaeddodd yr is-grŵp gasgliad cadarnhaol ynghylch gwaith rhanbarthol ym mhedwar o'r chwe rhanbarth. Yng Nghaerdydd a'r Fro cyfeiriwyd at weithredu 'rhannol' yn unig, ac ym Mae'r Gorllewin at 'weithredu prin os o gwbl'.
- 2.14 Canfuom mai ond dau Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol - Gogledd Cymru a Gwent - a allai roi enghreifftiau lluosog o brosiectau rhanbarthol ac/neu is-ranbarthol (**Bocs 4**). Yn ogystal â hyn, nid yw rhai o'r enghreifftiau a adroddwyd yn tarddu o'r pwyllgorau. Er enghraifft, mae dau o'r pum prosiect rhanbarthol y cyfeiriodd Pwyllgor Gwent atynt yn ei adroddiad blynyddol o 2015-16 o gyfnod cyn sefydlu'r Pwyllgor. Pan geir cydweithio, mae'r cydweithio hwnnw wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddatblygu ymagweddau cyffredin at brosesau craidd ac adolygiadau gwasanaeth yn hytrach na phrosiectau a gwasanaethau gwirioneddol ranbarthol (**Atodiad 3**).

Bocs 4: Prosiectau a gwasanaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol sy'n gweithredu ym mis Ionawr 2017

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru

Comisiynu ar y cyd ar raddfa is-ranbarthol:

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint yn ariannu ac yn rheoli'r prosiect Cymorth Fel y Bo'r Angen Cam-drin Domestig ar y cyd â chymdeithas tai elusennol Hafan Cymru.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ariannu a rheoli prosiect Doorstop ar y cyd. Mae'r prosiect yn darparu llety i bobl sy'n dioddef problemau'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.
- Mae Llety â Chymorth a Gwasanaeth Stop Nos is-ranbarthol wedi cael eu comisiynu rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint yn ariannu swyddog ffoaduriaid ar y cyd, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cartrefu/ailsefydlu ffoaduriaid o Syria ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych.

Mae prosiectau is-ranbarthol eraill yn cael eu hystyried.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent

Ar hyn o bryd, ceir nifer o wasanaethau a chynlluniau rhanbarthol ac is-ranbarthol i gefnogi ystod o grwpiau o gleientiaid:

- Prosiect troseddwyd cyson.
- Gwasanaeth Cymorth i Sipsiwn a Theithwyr.
- Pobl Ifanc (16-24 oed).
- Dau gynllun Cymorth Fel y Bo'r Angen i Bobl Hŷn.
- Gweithwyr Grymuso wrth Ryddhau o'r Carchar i gefnogi unigolion cyn ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar, a chanfod a chynnal llety addas.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu un prosiect is-ranbarthol, Gwasanaeth Gorllewin Cymru ar gyfer Firysau a Gludir yn y Gwaed, sydd yn gweithredu ar draws tri o'r pedwar awdurdod lleol sydd ar y Pwyllgor. Mae Gwasanaeth Cymorth Gorllewin Cymru ar gyfer Firysau a Gludir yn y Gwaed a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio mewn partneriaeth i roi cymorth i gleifion syn byw gyda'r firysau HIV, Hepatitis B neu Hepatitis C a gludir yn y gwaed.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf

Ni cheir unrhyw enghreifftiau o wasanaethau rhanbarthol, ond, ers 2015, mae'r ddau awdurdod lleol sy'n ffurfio Pwyllgor Cwm Taf, y naill a'r llall, wedi gweithredu cynllun cymorth fel y bo'r angen ar yr un fanyleb.

Bocs 4: Prosiectau a gwasanaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol sy'n gweithredu ym mis Ionawr 2017

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Y Fro a Chaerdydd

Ni cheir unrhyw enghreifftiau o wasanaethau rhanbarthol.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

Ni cheir unrhyw enghreifftiau o wasanaethau rhanbarthol.

- 2.15 Yn ein cyfweiliadau â swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl, Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol a chadeiryddion ac is-gadeiryddion Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, nodwyd bod sawl ffactor wedi cyfrannu at ddiffyg trefniadau rhanbarthol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.
- a diffyg cyllidebau 'cyfun' rhwng awdurdodau lleol a gynrychiolir ar y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.
 - b mae toriadau yng nghyllid y Rhaglen ([paragraff 2.42](#)) yn golygu bod awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar ddadgomisiynu gwasanaethau neu gynnal eu gwasanaethau lleol eu hunain, yn hytrach na chydweithio i ddatblygu gwasanaethau ar y cyd. Fodd bynnag, dylai pwysau ariannol annog awdurdodau lleol i ganfod lle y gallant gydweithio i gynnal gwasanaethau presennol am lai o gost.
 - c anawsterau wrth alinio amserlenni er mwyn caffael gwasanaethau yn rhanbarthol pan fo contractau presennol awdurdodau lleol yn dod i ben ar wahanol ddyddiadau.
- 2.16 Pwysleisiodd y swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y byddai modd goresgyn y problemau uchod. Er enghraifft, drwy'r Prosiect Alinio Cymunedau a Threchu Tlodi, a sefydlwyd yn 2015, crëwyd yr opsiwn i drosglwyddo cyllid rhwng rhaglenni. Mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi cydnabod y cyfyngiadau ar Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wrth ddatblygu gwasanaethau rhanbarthol. Yn 2015, cynhaliodd asesiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r Rhaglen. Canfu'r dadansoddiad mai araf fu'r cynnydd o ran cydweithio mewn rhai ardaloedd, ac na chafwyd unrhyw gydweithio o gwbl mewn ardaloedd eraill. Cwestiynai'r dadansoddiad y gwerth yr oedd pwyllgorau'n ei ychwanegu. Nodwyd hefyd bryder parhaus nad oes gan y pwyllgorau rym gwirioneddol, ac nad oeddent mewn sefyllfa dda i graffu'n effeithiol ar benderfyniadau gwario awdurdodau lleol. Mae'r canfyddiadau hyn ynghylch gwaith rhanbarthol yn berthnasol yng nghyd-destun uchelgais ehangach Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol.²⁰ Maent hefyd

²⁰ Llywodraeth Cymru, [Diwygio llywodraeth leol: cadernid ac adnewyddiad](#), Ionawr 2017.

yn berthnasol yng nghyd-destun y pwyslais ar gydweithredu fel un o'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae saith mlynedd wedi mynd heibio ers nodi'r angen am newid yn adolygiad Aylward, ond mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau pobl hŷn yn dal heb fod wedi'u seilio ar asesiad o anghenion

- 2.17 Argymhellai adolygiad Aylward yn 2010 y dylai'r 'meini prawf ar gyfer pobl hŷn sy'n derbyn cyllid Cefnogi Pobl fod yn seiliedig ar angen yn hytrach nag oed neu ddeiliadaeth'. Roedd yr adolygiad yn tynnu sylw at bryderon bod gan yr holl bobl hŷn sy'n byw mewn tai gwarchod hawl i dderbyn gwasanaethau Cefnogi Pobl, fel systemau larwm a gwasanaethau warden, p'un a oedd angen y gwasanaethau hynny arnynt ai peidio. Un o'r canlyniadau yn sgil hyn oedd bod pobl hŷn a oedd angen cymorth, ond a oedd yn byw y tu allan i dai gwarchod, heb fod yn derbyn cymorth digonol.
- 2.18 Yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen yn 2013, gosodwyd y cyfrifoldeb dros sicrhau bod gwasanaethau pobl hŷn yn niwtral o ran daliadaeth ar ysgwyddau'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol. Yr oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau:
- sefydlu llinell amser ar gyfer sicrhau gwasanaethau i bobl hŷn sydd yn seiliedig ar anghenion yn hytrach na daliadaeth;
 - sicrhau bod awdurdodau lleol cyfansoddol yn adrodd ar y modd y maent yn gweithio tuag at yr amcan, a'r amserlen ar gyfer hynny; ac
 - adrodd ar eu cynnydd wrth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl - a chynnwys hynny fel eitem sefydlog ar y pwyllgorau a'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.
- 2.19 Cyfeiriwyd at rywfaint o newid graddol yn adolygiad 2016 o wasanaethau cefnogi pobl. Ond casglai fod awdurdodau lleol yn dal i gomisiynu cyfran sylweddol o wasanaethau i bobl hŷn mewn modd sy'n golygu eu bod yn dal ond ar gael i denantiaid awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Nodai'r adolygiad fod y sefyllfa hon yn adlewyrchu etifeddiaeth o fodolau gwasanaeth o'r gorffennol, yn hytrach na thystiolaeth o lefelau neilltuol o angen o fewn y deiliadaethau hyn.
- 2.20 Ar gyfer 2015-2016, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol adrodd pa gyfran o'r gwariant ar wasanaethau i bobl hŷn sydd yn niwtral o ran deiliadaeth. Dim ond un o'r Pwyllgorau a roddodd ddata manwl ar y gyfran o wariant a oedd yn niwtral o ran deiliadaeth ar gyfer yr holl ardaloedd awdurdod lleol yn ei ranbarth (Bae'r Gorllewin). Rhoddodd tri o'r Pwyllgorau eraill ddata ar gyfer rhai o'r

awdurdodau lleol yn eu rhanbarthau. Ni roddodd Pwyllgorau Cwm Taf a Gwent unrhyw ddata manwl ar y pryd, er iddynt roi sylwebaeth ar gynnydd yn eu hadroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, mae Cwm Taf bellach wedi adrodd wrthym fod ei holl wasanaethau i bobl hŷn bellach yn niwtral o ran deilliadaeth.

Mae'r cynnydd wrth ddatblygu dull o werthuso yn parhau i fod yn araf, felly nid oes gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth ddigon da eto o effaith y Rhaglen

Ym mis Awst 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fframwaith newydd i asesu cynnydd unigolion yn erbyn cyfres benodol o ddeilliannau ar gyfer y Rhaglen

- 2.21 Dechreuodd Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith deilliannau yn 2008, ryw bum mlynedd ar ôl lansio'r Rhaglen. Yn 2010, casglodd Adolygiad Aylward fod angen fframwaith deilliannau cadarn, a dull mwy trwyadl o werthuso gwasanaethau. O fis Tachwedd 2009 hyd fis Mai 2010, roedd 17 o awdurdodau lleol wedi cymryd rhan mewn prosiect peilot i asesu perfformiad yn erbyn 11 o ddeilliannau, ar y cyd â rhai darparwyr eraill. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i ddarparwyr adrodd a oedd y deilliannau ar gyfer pob unigolyn a oedd yn derbyn cymorth 'wedi'u sicrhau', 'wedi'u sicrhau'n rhannol' neu 'heb eu sicrhau'. Ym mis Ebrill 2012, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r 11 o ddeilliannau a ddefnyddiwyd yn y gwaith peilot yn datblygu i greu'r 'Fframwaith Deilliannau' newydd, wedi'u rhannu o dan bedair thema eang (**Bocs 5**).
- 2.22 Fodd bynnag, yn wahanol i'r gwaith peilot, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddull '5 cam' i asesu cynnydd unigolion yn erbyn deilliannau'r Rhaglen. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r dull camau er mwyn cydnabod y rhan sydd gan y Rhaglen i'w chwarae er mwyn tywys y rhai sy'n derbyn cymorth tuag at ddeilliannau pendant fel sicrhau swydd, er bod llawer o'r unigolion sy'n derbyn cymorth drwy'r Rhaglen ymhell o sicrhau'r deilliannau hynny. Mae'r dull camau yn gweithio fel a ganlyn:
- a wrth gael ei dderbyn ar gynllun a ariennir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl, bydd y defnyddiwr gwasanaeth a'i weithiwr cymorth yn nodi pa rai o blith yr 11 o ddeilliannau y mae'r defnyddiwr gwasanaeth am weithio tuag atynt. Gellir dewis amryw o ddeilliannau, ac ar gyfer pob deilliant cofnodir asesiad drwy ddefnyddio un o'r 5 'cam' (**Bocs 6**).
 - b wrth adolygu, neu wrth adael cynllun a ariennir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl, bydd y cynnydd a wnaed tuag at sicrhau'r deilliant/deilliannau a fwriadwyd yn cael ei asesu a'i gofnodi.

Bocs 5: Y Fframwaith Deilliannau cyfredol ar gyfer Cefnogi Pobl

Hyrwyddo Diogelwch Personol a Chymunedol

- Teimlo'n ddiogel
- Cyfrannu at eu diogelwch a'u llesiant eu hunain ac eraill

Hyrwyddo Annibyniaeth a Rheolaeth

- Rheoli llety
- Rheoli cydberthnasoedd
- Teimlo'n rhan o'r gymuned

Hyrwyddo Cynnydd Economaidd a Rheolaeth Ariannol

- Rheoli arian
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd addysg/dysgu
- Mewn swydd gyflogedig/yn gwneud gwaith gwirfoddol

Hybu Iechyd a Llesiant

- Yn gorfforol iach
- Meddwl iach
- Yn byw bywyd iach ac egnïol

Bocs 6: Y dull 5 cam a ddefnyddir i asesu cynnydd tuag at ddeilliannau'r Rhaglen

Dyma ddiffiniad Llywodraeth Cymru o'r 5 cam:

Cam 1

- Y deilliant i'r darparpwydd gwasanaeth yn y cam hwn yw atal neu leihau hyd yr eithaf unrhyw niwed i'r defnyddiwr gwasanaeth ac eraill, a meithrin ymddiriedaeth â'r defnyddiwr gwasanaeth.
- Yn y cam hwn, efallai na fydd y defnyddiwr gwasanaeth yn barod i drafod agwedd neilltuoel ar ei fywyd, fel rheoli arian, neu efallai y bydd yn anodd ymgysylltu ag ef/hi.
- Dylai defnyddwyr gwasanaeth gael cymorth i atal y sefyllfa rhag 'gwaethygu' nes bo modd gwneud cynnydd tuag at y deilliannau perthnasol.

Bocs 6: Y dull 5 cam a ddefnyddir i asesu cynnydd tuag at ddeilliannau'r Rhaglen

Cam 2

- Efallai y bydd defnyddwyr gwasanaeth yn barod i drafod deilliannau perthnasol, ond yn ansicr ynghylch sut i wneud cynnydd tuag at sicrhau'r deiliant, a'u bod angen cymorth sylweddol i gymryd y camau nesaf.
- Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar gynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaeth i fod yn fwy sefydlog a chynnig mynediad at adnoddau a ddylai helpu'r defnyddiwr gwasanaeth i ddiffinio'r hyn y mae am ei gyflawni.
- Efallai y bydd angen cymorth sylweddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth i dderbyn eu bod yn gallu rheoli agweddau ar eu bywyd, fel rheoli arian.
- Efallai mai dyma'r hyn y bydd angen cefnogaeth ar ei gyfer yn y cyfnod cychwynnol, ac oherwydd sawl ffactor (ee, risg, iechyd, gallu, blaenoriaethu), mae'n bosib mai'r gweithiwr cymorth fydd yn arwain y broses o ysgogi cynnydd.

Cam 3

- Bydd defnyddwyr gwasanaeth wedi dechrau credu eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth/newid yr agwedd hon ar eu bywyd, a byddant yn derbyn nodau penodol ar sail amser er mwyn sicrhau'r deiliant disgwylidig.
- Yn y cam hwn, dylid canolbwyntio ar annog defnyddwyr gwasanaeth i weithio tuag at nodau cyflawnadwy ar eu pen eu hunain, gan roi cymorth os oes angen; ond heb gyflawni ar eu rhan.
- Dylid helpu defnyddwyr gwasanaeth fyfyrto ar yr hyn sydd wedi mynd yn dda a rhoi cefnogaeth gadarnhaol iddynt pan na fydd pethau wedi bod mor lwyddiannus.

Cam 4

- Dylid rhoi cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth ymdrin ag anawsterau eu hunain ac i fod yn fwy hunan-ddibynnol a hyddysg ynghylch sut i ofyn am gymorth sefydliad, heb eu gweithiwr cymorth.

Cam 5

- Dylai defnyddwyr gwasanaeth bellach fod yn gallu rheoli'r rhan fwyaf o'r problemau yn y maes hwn ar eu pen eu hunain.
- Gan amlaf, dylai defnyddwyr gwasanaeth fod yn cyrchu gwasanaethau heb gefnogaeth, a chael cefnogaeth i ddeall pryd y mae/os oes angen mwy o gefnogaeth arnynt yn y maes hwn.
- Dylai defnyddwyr gwasanaeth deimlo'n ddigon hyderus i ddechrau eu helpu eu hunain i ymdrin â phroblemau yn y maes hwn.
- Mewn gwasanaethau hirdymor: bydd defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y gallai fod angen cymorth arnynt am byth gyda'r agwedd hon, ond maent yn cadw cymaint o annibyniaeth ag sy'n bosibl wrth gyflawni eu nod o sicrhau nad ydynt yn colli'r lefel optimwm o annibyniaeth drwy gael cymorth hirdymor.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Canllawiau Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl**, Ebrill 2012

Fodd bynnag, ceir sawl cyfyngiad ar y Fframwaith Deilliannau cyfredol, sy'n ei gwneud hi'n anodd ffurfio barn gynhwysfawr ynghylch llwyddiant y Rhaglen, ac mae diffyg hyder yn y data sydd wedi'u casglu

- 2.23 Wrth ddatblygu'r Fframwaith Deilliannau cyfredol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi disgrifiad cliriach o'r hyn y mae'n disgwyl i'r Rhaglen ei gyflawni. Serch hynny, ceir cyfyngiadau o hyd ar ddyluniad y Fframwaith yn ein barn ni. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi sefydlu unrhyw ddangosyddion na meini prawf ar gyfer asesu llwyddiant y Rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r meysydd lle mae'n disgwyl gweld defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud cynnydd, ond nid yw wedi mesur maint yr effaith a ddisgwylir yn sgil y Rhaglen. Ni chafwyd ychwaith berthynas glir a syml rhwng y data a gasglwyd drwy'r Fframwaith Deilliannau a nodau'r Rhaglen.
- 2.24 Dywedodd llawer o'r rhai a oedd yn ymwneud â chyflenwi'r Rhaglen ei bod hi'n cymryd amser hir i gasglu'r data deilliannau. Ar ben hynny, nid oedd ganddynt ymddiriedaeth na hyder yng nghywirdeb y data. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ei barn y dylai awdurdodau lleol nad oes ganddynt hyder yn y data gydweithio'n agosach â darparwyr cymorth i ymdrin â'r problemau dan sylw. Mae a wnelo'r pryderon yn bennaf â natur oddrychol yr asesiad 5 cam.²¹ Fodd bynnag, ceir pryderon hefyd ynghylch y canlynol:
- a bod rhai darparwyr yn ffurfio barn heb drafod cynnydd â'r defnyddiwr gwasanaeth. Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru'n cyfleu'n glir a ddylid sefydlu deialog wrth ddechrau rhoi cymorth, neu beth ddylai ddigwydd os na all gweithiwr cymorth a defnyddiwr gwasanaeth gytuno ar faint y cynnydd a gafwyd.
 - b efallai na fydd y cynnydd yn ddi-duedd. Er enghraifft, gallai fod yn fuddiol i ddarparydd roi gwedd gadarnhaol ar gynnydd i ddangos bod ei ymyrraeth yn effeithiol.
- 2.25 Dengys gwaith cynnar gan swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru nad oedd gan ddarparwyr ddealltwriaeth gyffredin o ystyr pob cam. Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2014, dadleuai'r swyddogion arweiniol fod pryderon ynghylch data'r Fframwaith Deilliannau yn golygu bod llai o bwys yn cael ei roi i'r fframwaith yn ystod adolygiadau gwasanaeth o gymharu â ffynonellau eraill o ddata.

²¹ Mae unrhyw asesiad o faint y cynnydd a gafwyd nid yn unig yn adlewyrchu'r cynnydd tuag at gyflawni nodau penodol, a all fod yn farn oddrychol ynddi ei hun, ond hefyd yn adlewyrchu barn fwy goddrychol ynghylch lefel y rheolaeth a'r cyfrifoldeb y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn eu cymryd dros yr heriau y mae'n eu profi.

- 2.26 Mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi nodi pryderon ynghylch cyflawnder a chywirdeb y data. Canfu anghysondeb wrth gymharu nifer y bobl yr oedd y Rhaglen yn disgwyl eu cefnogi yn 2012-13 a 2013-14 â nifer yr unigolion yr oedd cynghorau wedi adrodd deilliannau ar eu cyfer. Cododd rhai o'r cyfweleion bryderon neilltuol ynghylch dibynadwyedd data deilliannau 2012-13 a 2013-14, yn dilyn newidiadau i ofynion adrodd oherwydd pryderon ynghylch diogelu data.
- 2.27 Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi herio awdurdodau lleol i ddarparu data gwell. O fis Mawrth 2015, bydd pob awdurdod lleol yn llenwi taenlen ac arni isafswm y deilliannau a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru a nifer gwirioneddol y deilliannau a adroddwyd yn y chwe mis blaenorol. Os yw'n ymddangos bod y data yn anghyflawn, bydd Llywodraeth Cymru'n herio'r data a ddarparwyd. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y cynnydd canlynol yn nifer y deilliannau a adroddwyd yn dangos bod adroddiadau awdurdodau lleol ar ddeilliannau wedi gwella Adroddodd awdurdodau lleol ddeilliannau ar gyfer 30,008 o unigolion yn 2012-13 a 32,544 o unigolion yn 2013-14. Ar gyfer yr un cyfnod yn 2015-16, adroddwyd ar un neu fwy o ddeilliannau ar gyfer 57,453 o unigolion.
- 2.28 Yn sgil newidiadau i'r templed casglu data, gall Llywodraeth Cymru bellach gyfrif faint o unigolion sy'n derbyn cymorth, ac na adroddir deilliannau ar eu cyfer am sawl rheswm posib²². Ar gyfer y cyfnod Hydref - Mawrth 2015-16, nododd Llywodraeth Cymru fod 20,000 o ddeilliannau posib heb eu hadrodd. Mae hyn yn gyfwerth â 9% o'r holl ddeilliannau adroddadwy.
- 2.29 Mae'r pryderon ynghylch data deilliannau yn parhau, fel y mynegwyd yn adroddiadau blynyddol dau o'r chwe Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer 2015-16, ef Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Fro a Chaerdydd. Yn ogystal â hyn, cododd Llywodraeth Cymru bryderon newydd yn ystod 2016-17 ynghylch y data a gyflwynir gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru.
- 2.30 Serch hynny, ceir enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn gwneud defnydd o'r data deilliannau. Yn ôl adroddiadau Pwyllgor Cwm Taf, caiff y data deilliannau eu cyflwyno'n rheolaidd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. Dywedodd Cyngor Sir Fynwy ei fod wedi gallu gwneud defnydd da o ddata'r Fframwaith Deilliannau er mwyn nodi problemau'n gysylltiedig â darpariaeth gwasanaeth. Er enghraifft, yn nadansoddiad y Cyngor o'r data amlygwyd problemau'n gysylltiedig â mynediad teg i ddynion a menywod at wasanaethau. Gan adeiladu ar y dadansoddiad hwnnw, cyflawnodd y Cyngor waith ymchwil pellach a chymryd camau i ymdrin â phroblemau mynediad ymhlith dynion.

²² Ni chesglir gwybodaeth am ddeilliannau ond ar gyfer pobl a chanddynt gynllun cymorth wedi'i sefydlu, ac sydd wedi derbyn adolygiad o fewn y cyfnod adrodd. Ni fydd darparwyr yn adrodd deilliannau ym mhob achos ychwaith.

2.31 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio casgliadau cyfyngedig ynghylch effaith y Rhaglen rhwng mis Hydref 2015 a mis Mawrth 2016, yn seiliedig ar ddata deilliannau a adroddwyd gan awdurdodau lleol. Wrth ddod â'r dadansoddiad hwn ynghyd mewn dogfen weithiol lefel uchel a anfonwyd at awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydgasglu deilliannau:

- a **Teimlo'n ddiogel a rheoli arian:** Ar y cyfan, cafodd cyfartaledd o 61% o ddefnyddwyr gwasanaeth yr oedd y deilliannau hyn yn berthnasol iddynt ddeilliant cadarnhaol ar draws y ddau faes deilliannol, sef cynnydd o 2% o gymharu â'r cyfnod blaenorol (Ebrill 2015 - Medi 2015).
- b **Rheoli llety:** Ar y cyfan, cafodd cyfartaledd o 62% o ddefnyddwyr gwasanaeth yr oedd y deilliannau hyn yn berthnasol iddynt ddeilliant cadarnhaol yn y maes hwn, sef cynnydd o 4% o gymharu â'r cyfnod blaenorol.
- c **Yn gorfforol iach, yn iach o ran meddwl ac yn byw bywyd iach ac egniol:** Sicrhaodd cyfartaledd o 59% o ddefnyddwyr gwasanaeth, yr oedd y deilliannau hyn yn berthnasol iddynt, ddeilliant cadarnhaol ar draws y tri maes deilliant, sef cynnydd o 5% o gymharu â'r cyfnod blaenorol.
- ch **Cyfrannu at eu diogelwch eu hunain a llesiant eraill, rheoli perthnasoedd a theimlo'n rhan o'r gymuned:** Sicrhaodd cyfartaledd o 63% o ddefnyddwyr gwasanaeth yr oedd y deilliannau hyn yn berthnasol iddynt ddeilliant cadarnhaol ar draws y tri maes deilliant, sef cynnydd o 4% o gymharu â'r cyfnod blaenorol.
- d **Cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu addysgiadol ac mewn gwaith cyflogedig/gwaith gwirfoddol:** Sicrhaodd cyfartaledd o 58% o ddefnyddwyr gwasanaeth, yr oedd y deilliannau hyn yn berthnasol iddynt, ddeilliant cadarnhaol ar draws y tri maes deilliant, sef cynnydd o 8% o gymharu â'r cyfnod blaenorol.

2.32 Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio nad yw ond yn ystyried y dadansoddiad hwn fel dadansoddiad dangosol. Gallai cyfuno data guddio gwahanol dueddiadau mewn gwahanol feysydd deilliant, a gallai hefyd guddio achosion o amrywio sylweddol yng nghanran y defnyddwyr gwasanaeth sydd yn ennill deilliannau cadarnhaol yn y gwahanol gategoriâu. Ar ben hynny, nid yw'r ffigurau a adroddir yn y ddogfen yn gwahaniaethu rhwng yr hyn a adroddir yn ddeilliannau a fodlonir yn rhannol a deilliannau a fodlonir yn llawn. Mewn gwirionedd, deilliannau rhannol sydd i gyfrif am bron i 50% o'r deilliannau cadarnhaol a adroddir. Yn ogystal â hyn, nid yw canran y deilliannau cadarnhaol a adroddir yn cynnwys yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth yr oedd y deilliannau'n berthnasol iddynt, gan fod deilliannau'n cael eu tanadrodd ([paragraff 2.28](#)).

- 2.33 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol a'r pwyllgorau rhanbarthol roi ystyriaeth fanylach i'r data. Mae awdurdodau lleol yn cadw manylion am gynnydd unigolion nad yw ar gael i Lywodraeth Cymru.
- 2.34 Fel ffordd arall o ddangos effeithiau cadarnhaol y Rhaglen, casglodd Gwent, i ddechrau, gyfres o astudiaethau achos ynghyd. Efelychwyd y dull hwn yn ddiweddarach gan Ogledd Cymru (**Atodiad 6**). Mae'r rhanbarthau wedi defnyddio'r astudiaethau achos i amlygu arbedion sylweddol posibl i wasanaethau statudol eraill yn sgil y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r Fframwaith Deilliannau mewn ymdrech i ymdrin â rhai o'r pryderon presennol

- 2.35 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod cyfyngiadau'r Fframwaith Deilliannau ac yn bwriadu ei ddiwygio (Bocs 7). Er nad yw wedi'i gwblhau'n derfynol, dyma'r prif newidiadau a gynigir:
- a **lleihau nifer y deilliannau o 11 i 7 a chyflwyno proses 3 cham i ddisodli'r broses 5 cam gyfredol.** Er nad yw union ddiffiniadau'r tri cham wedi'u cadarnhau eto, rhoddir yr esiamplau isod yn y ddogfen ymgynghori:
 - Cam 1: 'Hoffwn i weithio tuag at X' - gydag X yn cynrychioli un o'r saith deilliant;
 - Cam 2: 'Rwy'n gweithio tuag at X'; a
 - Cham 3: 'Rwyf wedi cyflawni X'.
 - b **y dylai awdurdodau gyflwyno data ar ystod o fesurau 'caletach'.** Er enghraifft, ynghylch 'nifer ac/neu ganran y bobl a chanddynt lety addas sydd yn debygol o bara am chwe mis o leiaf'.
 - c **y dylai awdurdodau gyflwyno gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb.** Er enghraifft, o ran cyfeiriadedd rhywiol ac anabled, galluogi Llywodraeth Cymru i werthuso'r Rhaglen yn erbyn gofynion cydraddoldeb.

Bocs 7: Fframwaith Deilliannau Diwygiedig: y saith deilliant arfaethedig a dangosyddion perfformiad

Deilliant 1: Mae pobl yn teimlo'n ddiogel:

- Nifer ac/neu ganran y rhai sy'n derbyn cymorth sy'n teimlo'n ddiogel.

Deilliant 2: Gall pobl reoli eu harian:

- Nifer ac/neu ganran y cleientiaid sy'n derbyn cymorth y mae eu sefyllfa ariannol wedi sefydlogi ac/neu wella.

Deilliant 3: Mae gan bobl lety ac maent yn gallu ei reoli/Nid yw pobl mewn perygl o gael eu gwneud yn ddigartref yn sydyn:

- Nifer ac/neu ganran y bobl a chanddynt lety addas sydd yn debygol o bara am chwe mis o leiaf;
- Nifer y bobl sydd o dan ddyletswydd A66; mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i helpu unigolion cymwys i barhau i fyw mewn llety addas; a
- nifer y bobl sy'n ddigartref o dan A73; mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i helpu unigolion cymwys i ganfod llety addas.

Deilliant 4: Mae pobl yn ymwneud ag addysg ac/neu gyfleoedd dysgu:

- Nifer y bobl sy'n ymwneud ag addysg ac/neu gyfleoedd dysgu hyd at gymhwyster lefel 2 neu'n uwch²³; a
- nifer y bobl sydd wedi cael cymorth i gyrchu gweithgaredd dysgu a allai gynnwys hyfforddiant ar sgiliau sylfaenol, ond sydd yn is na chymhwyster lefel 2.

Deilliant 5: Pobl sydd wedi bod yn gwneud gwaith cyflogedig/gwaith gwirfoddol:

- Nifer ac/neu ganran y bobl sydd wedi mynd i swydd gyflogedig; a
- nifer ac/neu ganran y bobl sy'n gwirfoddoli.

23 Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio addysg lefel 2 fel 'Cymwysterau TGAU (graddau A*-C), Lefel O (graddau A-C), Tystysgrifau Addysg Uwchradd (gradd 1), Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma (City & Guilds, CACHE, OCR, BTEC/Edexcel/Pearson), Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), NVQ Lefel 2, Tystysgrif/Diploma Genedlaethol, Prentisiaeth Ganolradd, Sgiliau Gweithredol Sgiliau Hanfodol, Cerddoriaeth (graddau 4-5)'.

Bocs 7: Fframwaith Deilliannau Diwygiedig: y saith deilliant arfaethedig a dangosyddion perfformiad

Deilliant 6: Pobl sydd yn iach yn gorfforol:

- Nifer ac/neu ganran y bobl sy'n derbyn cymorth i reoli eu cyflwr iechyd corfforol.

Deilliant 7: Pobl sydd yn iach yn feddyliol

- Nifer ac/neu ganran y bobl y mae eu llesiant emosiynol/meddyliol wedi gwella.

Yn ogystal a chasglu data'n unol â'r mesurau uchod, bydd disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu data ar gyfer ystod o fesurau sy'n gysylltiedig â statws unigolion o ran tai, cyflogaeth ac addysg wrth iddynt gael eu derbyn i'r gwasanaeth cymorth ac ymadael â'r gwasanaeth hwnnw.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.36 Fodd bynnag, fel ag y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, mae'n bosibl na fydd y trefniadau diwygiedig yn ymdrin yn llawn â'r pryderon ynghylch y fframwaith a'r data deilliannau cyfredol. Ni fyddai'r dull a gynigir ychwaith yn dangos yn glir beth yw effaith y Rhaglen ar feysydd fel digartrefedd. Yn benodol:

- a o ran lleihau ac ailddiffinio'r 'camau' mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r tebygolrwydd y bydd barnau ynghylch cynnydd yn fwy cyson. Yn ogystal â hyn, bydd ystod o fesurau 'caletach' fel nifer ac/neu ganran y bobl sydd wedi mynd i swydd gyflogedig yn cefnogi'r Fframwaith Deilliannau. Fodd bynnag, bydd y Fframwaith Deilliannau yn dal i ddibynnu ar rai asesiadau goddrychol o gynnydd, gan ddisgwyl risg nad yw'r data'n cael eu hystyried yn ddibynadwy am y rhesymau a nodir uchod ([paragraff 2.24](#)).
- b mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ddatblygu cronfa ddata i leihau'r amser a dreulir yn casglu a gwirio data a lleihau gwallau wrth gofnodi data. Yn ei hymgyngghoriad diweddar ar y fframwaith deilliannau diwygiedig, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ariannu cronfa ddata o'r fath, ond bydd unrhyw benderfyniad terfynol yn ystyriol o adborth a gafwyd wrth ymgynghori.
- c nid yw mesur dangosyddion perfformiad ynddo'i hun yn dangos mai'r Rhaglen dan sylw sy'n gyfrifol am unrhyw symudiad i fyny neu i lawr yn erbyn y dangosydd. Er mwyn canfod yr hyn sydd wedi achosi effaith, mae angen cynnal ymchwil fanwl arhydol ac ansoddol hefyd, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn cynllunio gwerthusiad o'r fath.

Ar wahân i'r gwaith a gyflawnir er mwyn datblygu'r Fframwaith Deilliannau, ceir tystiolaeth bod y Rhaglen yn lleihau'r galw am y gwasanaethau iechyd, er bod y dystiolaeth honno'n brin ar hyn o bryd

- 2.37 Ym mis Chwefror 2015, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer astudiaeth i archwilio dichonoldeb cysylltu data gweinyddol ar y defnydd o wasanaethau iechyd ag unigolion sy'n derbyn gwasanaethau a ariennir drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl.²⁴ Y prif nod oedd asesu cyfraniad posibl technegau cysylltu data at werthuso'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Yn achos rhai defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl, roedd yr astudiaeth dichonoldeb yn archwilio'r defnydd o'r gwasanaeth iechyd yn y cyfnod ac ar ôl yr ymyrraeth Cefnogi Pobl, o gymharu â grŵp 'rheoli'.²⁵
- 2.38 Dim ond dau awdurdod lleol (Blaenau Gwent ac Abertawe) oedd yn gallu darparu'r data yn y fformat gofynnol, o fewn amserlen dynn iawn. Yn fras, canfu'r astudiaeth fod pawb a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth Cefnogi Pobl yn Abertawe, a'r defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn derbyn cymorth fel y bo'r angen ym Mlaenau Gwent, yn gwneud mwy o ddefnydd o wasanaethau meddyg teulu ar gyfartaledd na phoblogaeth 'reoli'. Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer ymweliadau â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ymhlith rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth Cefnogi Pobl yn Abertawe a Blaenau Gwent. Ar ôl yr uchafbwynt cychwynnol hwn, gwelwyd mwy o ddirywiad yn y defnydd o wasanaethau meddyg teulu ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth Cefnogi Pobl yn y misoedd ar ôl dechrau'r ymyrraeth, o gymharu â'r grŵp rheoli. Goblygiadau hyn oedd ei bod hi'n llai tebygol y byddai angen gwasanaethau iechyd ar y rhai a oedd wedi derbyn ymyrraeth Cefnogi Pobl dros y tymor hwy.
- 2.39 Casglai'r astudiaeth ddichonoldeb fod potensial i ddefnyddio technegau cysylltu data i archwilio effaith y Rhaglen ar iechyd a gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, pwysleisiai'r adroddiad fod angen set ddata ehangach i gefnogi unrhyw farn bendant ynghylch effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl ar wasanaethau iechyd.
- 2.40 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau yn erbyn rhai o argymhellion adroddiad yr astudiaeth ddichonoldeb ac yn darparu £201,000 ar gyfer astudiaeth pedair blynedd i gysylltu data ar draws Cymru gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r telerau a'r amodau grant i sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gysylltu data Cefnogi Pobl â data dienw a gedwir am ddefnydd yr unigolyn hwnnw o wasanaethau iechyd, drwy ddefnyddio codau post er enghraifft. Y mae hefyd wedi cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol a darparwyr sicrhau bod dogfennau perthnasol yn hysbysu unigolion ynghylch y

²⁴ Llywodraeth Cymru, **Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Ymchwil**, Mawrth 2016

²⁵ Roedd y grŵp rheoli yn cynnwys unigolion a atgyfeiriwyd i'r rhaglen Cefnogi Pobl ond a gafodd eu cofnodi'n 'aflwyddiannus'. Roedd y rheiny felly'n unigolion na roddwyd cymorth iddynt, neu y rhoddwyd cymorth iddynt ond 'na wnaethant ymgysylltu'.

defnydd a wneir o'r data hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried argymhelliad ynghylch datblygu model i gyfrif arbedion yng nghostau gwasanaethau iechyd yn sgil y Rhaglen. Oherwydd cyfyngiadau ar gostau, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu symud ymlaen ag astudiaeth ansoddol i greu grŵp rheoli gwell a rhoi esboniadau am y patrymau a welir yn y defnydd o wasanaethau iechyd.

- 2.41 Bu cynnydd yr astudiaeth 4 blynedd newydd yn arafach na'r disgwyl. Yn adroddiad y flwyddyn gyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017,²⁶ nodwyd bod data wedi'i gaffael gan wyth cyngor²⁷ a bod un ar ddeg o gynghorau eraill wedi cadarnhau eu bod wedi sicrhau'r dogfennau cyfreithiol angenrheidiol er mwyn rhannu data. Ni chymerodd tri awdurdod lleol ran yn y prosiect ar ei flwyddyn gyntaf. Yn adroddiad y flwyddyn gyntaf, amlygir heriau parhaus yn gysylltiedig ag ansawdd data, ond cynnydd hefyd tuag at wella'r modd y cesglir ac y darperir data yn y dyfodol.

Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban, mae cyllid wedi parhau i gael ei neilltuo, serch hynny, ceir rhai pryderon ynghylch yr effaith ar ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau Cefnogi Pobl yn sgil gostyngiadau i'r gyllideb

- 2.42 Yng nghyd-destun y pwysau ehangach ar gyllideb Llywodraeth Cymru, cafwyd gostyngiad o 8.5% (£11.6 miliwn) yn nhermau arian parod yng nghyfanswm cyllideb blyneddol y Rhaglen rhwng 2013-14 a 2016-17; mewn termau real, cafwyd gostyngiad o 10.5% (£14.6 miliwn). Fodd bynnag, mae dyraniadau cyffredinol awdurdodau lleol wedi parhau yr un peth ers 2015-16 yn nhermau arian parod (**Atodiad 4**).
- 2.43 Yng Nghymru, mae cyllid ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl yn parhau i fod wedi'i neilltuo, sy'n wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn golygu na ellir ond defnyddio cyllid y Rhaglen yng Nghymru i ariannu gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai i helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Gwelsom gefnogaeth unfrydol bron iawn o blaid penderfyniad Llywodraeth Cymru i barhau i glustnodi'r arian.
- 2.44 Mae'r Swyddfa Archwilio Cenedlaethol wedi adrodd gostyngiad o 45% mewn gwariant ar ymyraethau Cefnogi Pobl yn Lloegr rhwng 2010-11 a 2014-15.²⁸ Mae darparwyr gwasanaeth yn Lloegr wedi awgrymu, ers rhoi'r gorau i neilltuo cyllid ar gyfer y Rhaglen, bod arian wedi cael ei wro i wasanaethau statudol y mae awdurdodau lleol wedi bod yn ei chael hi'n anodd eu darparu oherwydd y gostyngiadau cyffredinol yng

26 Llywodraeth Cymru, **Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Ymchwil**, Mehefin 2017

27 Abertawe, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd, Casnewydd, Torfaen a Chaerffili.

28 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Impact of funding reductions on local authorities**, Tachwedd 2014

nghyllid y llywodraeth ganolog.²⁹ Mae rhai darparwyr yn Lloegr hefyd wedi awgrymu bod y gostyngiadau mewn gwariant ar wasanaethau Cefnogi Pobl yn debygol o fod wedi gostwng ansawdd y gwasanaethau hynny, ac y bydd hynny'n arwain at gostau uwch yn y tymor hwy. Mewn ymateb i'r gostyngiad mewn cyllid ar gyfer y Rhaglen yng Nghymru, mae rhai darparwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl wedi mynegi pryderon tebyg ynghylch yr effaith ar ansawdd gwasanaethau (**paragraff 2.54**).

- 2.45 Esboniodd rhai swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl wrthym eu bod wedi canfod arbedion drwy adolygu cynlluniau etifeddol y Grant Refeniw Cefnogi Pobl. Yn adolygiadau rhai awdurdodau lleol, nodwyd gwasanaethau nad oeddent yn berthnasol mwyach o safbwynt strategol, neu nad oeddent yn cynnig gwerth am arian, ac a gafodd eu hailfodelu neu eu dadgomisiynu'n ddiweddarach. Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol gyfrif yr arbedion yn sgil yr adolygiadau hyn, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau yn gallu rhoi cadarnhad o'r ffigurau:
- a adroddodd Cyngor Sir y Fflint gyfanswm o £185,000 o arbedion rhwng 2013-14 a 2017-18;
 - b adroddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gyfanswm o £0.2 miliwn o arbedion anghylchol rhwng 2013-14 a 2015-16; ac
 - c adroddodd Cyngor Bro Morgannwg gyfanswm o £150,000 o arbedion cylchol o 2016-17 ymlaen.
- 2.46 Drwy adolygu gwasanaethau eraill yn barhaus, mae rhai awdurdodau lleol wedi canfod cyfleoedd am arbedion, gan gynnwys drwy adolygiadau, mewn gwasanaethau a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu. Nid ydym wedi ceisio cyfrif yr arbedion a oedd yn deillio o'r adolygiadau hyn, ac nid yw'r holl awdurdodau lleol wedi cynnal yr adolygiadau.
- 2.47 Mewn egwyddor, gallai datblygu arferion gwaith rhanbarthol ac is-ranbarthol ac/neu wasanaethau penodol (**Bocs 4**) hefyd fod wedi esgor ar rai arbedion ariannol. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw ffigurau i gyfrif yr arbedion hynny. Yn ogystal â hyn, rhoddodd rhai awdurdodau lleol enghreifftiau lle'r oeddent wedi ychwanegu eu cyllid eu hunain at y grant cefnogi pobl³⁰ er mwyn helpu i leihau'r gostyngiad yn y grant a ddyrannwyd.

29 The Guardian, **Supporting People cuts leave housing sector unable to help most vulnerable**, Awst 2011

30 Mewn ymateb i ostyngiad yn y grant a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Cefnogi Pobl Conwy a Wrecsam, cyfrannodd y naill gyngor lleol £1.1 miliwn a'r cyngor arall £2.5 miliwn rhwng 2012-13 a 2015-16.

2.48 Mae ein dadansoddiad yn awgrymu mai un dull a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol i ymdrin â gostyngiadau cyllidebol oedd newid o gymorth sefydlog drytach i gymorth rhatach fel y bo'r angen.³¹ Ers 2014-15, cafwyd newid bach ond gweladwy yng nghyfran gyffredinol y cyllid sy'n cael ei wario ar gymorth sefydlog a chymorth fel y bo'r angen o fewn y Rhaglen (Dangosyn 3). Ym marn Llywodraeth Cymru mae lefelau uwch o gymorth fel y bo'r angen yn dangos bod awdurdodau lleol yn ymyrryd yn gynt i ymdrin â phroblemau cyn cyrraedd sefyllfa o argyfwng lle bydd angen gwasanaethau cymorth sefydlog ar unigolion. Mae'r dull hwn yn gyson â'r agenda ataliol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a gallai fod yn fwy cost-efeithiol yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mynegodd ymatebwyr i arolwg Cartrefi Cymunedol Cymru yn 2016 (paragraff 2.54) y farn fod awdurdodau lleol yn ariannu llai o wasanaethau dwys er mwyn sicrhau arbedion ariannol, ac y byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Dangosyn 3: Y gyfran o gyllideb y Rhaglen Cefnogi Pobl a ddyrannwyd i unedau cymorth fel y bo'r angen a chymorth sefydlog, 2013-14 hyd 2016-17

Blwyddyn	Cymorth fel y bo'r angen (%)	Cymorth sefydlog (%)
2013-14	44.7	55.3
2014-15	43.8	56.2
2015-16	46.8	53.2
2016-17	49.7	50.3

Sylwer

Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys cyllid a wariwyd ar wasanaethau larwm o fewn y Rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru yn tynnu'r cyllid hwnnw o ran helaeth o'i waith dadansoddi gan honni ei fod yn ystumio'r darlun cyffredinol.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

31 Yn 2016-17, yr oedd 17 o gategorïau client a oedd yn cynnwys gwariant ar gymorth sefydlog a chymorth fel y bo'r angen. O blith y rhain, yr oedd y cymorth sefydlog yn ddrytach yn 14 o'r achosion.

- 2.49 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau gwariant blynyddol sy'n amlinellu mewn 'unedau' sut maent yn bwriadu gwario'r cyllid a ddyrannwyd iddynt o dan y Rhaglen. Lle bo'r cymorth yn gymorth fel y bo'r angen, mae'r term 'uned' yn cyfeirio at nifer y bobl y bydd gweithiwr cymorth yn cael ei ariannu i'w helpu. Lle bo'r cymorth yn sefydlog, mae'r term 'uned' yn cyfeirio at nifer y gwelyau a ddarperir drwy'r Rhaglen. Yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru o gynlluniau gwariant y cyfnod 2013-14 hyd 2016-17, gwelwyd bod nifer yr unedau a gefnogwyd drwy'r Rhaglen wedi gostwng ar gyfradd uwch na chyllid y Rhaglen. Cafwyd gostyngiad o 9.5% yng nghyllideb y Rhaglen yn nhermau arian parod (£13 miliwn), ond gostyngiad o 17.6% yn nifer yr unedau a gefnogwyd (12,319).
- 2.50 Mae Llywodraeth Cymru wedi casglu bod y gostyngiad cyffredinol mewn unedau gan amlaf yn perthyn i bedwar categori: darparu larymau i bobl hŷn mewn llety gwarchod; gwasanaethau i bobl dros 55 oed sydd angen cymorth; Pobl â salwch cronig a phobl ag anableddau corfforol/synhwyraidd. Dengys ein dadansoddiad fod:
- a gwasanaethau larwm i gyfrif am 65% o'r gostyngiad cyffredinol mewn gwasanaethau;
 - b gwasanaethau i bobl dros 55 oed i gyfrif am 25% o'r gostyngiad mewn unedau;
 - c pobl ag anableddau corfforol/synhwyraidd i gyfrif am 7% o'r gostyngiad mewn unedau; a
- ch pobl â salwch cronig i gyfrif am 2% o'r gostyngiad mewn unedau.
- 2.51 Roedd gostyngiad yn nifer yr unedau llety gwarchod â larymau wedi'u hariannu drwy'r Rhaglen yn ddisgwyliedig wrth i awdurdodau lleol geisio bodloni argymhellion adolygiad Aylward ([paragraff 2.3](#)). Dengys **Dangosyn 4** mai mewn gwasanaethau larwm y cafwyd y gostyngiad canrannol mwyaf mewn gwariant rhwng 2013-14 a 2016-17. Fodd bynnag, anableddau dysgu a chymorth wrth gefn cyffredinol yw'r ddau faes a brofodd y gostyngiad mwyaf yn nhermau arian parod, sef dros £5 miliwn yn y ddau achos.

Dangosyn 4: Categoriâu cleient o fewn y rhaglen Cefnogi Pobl lle cafwyd y gostyngiadau canrannol mwyaf mewn gwariant rhwng 2013-14 a 2016-17

Categori cleientiaid	Newid rhwng 2013-14 a 2016-17 (%)	Newid rhwng 2013-14 a 2016-17 (£ miliynau)
Gwasanaethau larwm (gan gynnwys larymau mewn gofal gwarchodol/gofal ychwanegol)*	-45	-1.88
Cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd	-25	-5.36
Pobl â salwch cronig	-25	-0.04
Pobl ifanc sy'n gadael gofal	-20	-0.16
Pobl sengl sydd angen cymorth (25-54)	-19	-1.01
Pobl ag anableddau corfforol ac/ neu synhwyrdd	-18	-0.33
Pobl ag anableddau dysgu*	-16	-5.85
Pobl â hanes o droseddu yn y gorffennol*	-16	-0.44
Pobl â phroblemau yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau a sylweddau anwedol)	-15	-0.67
Pobl ifanc sydd angen cymorth (16-24)*	-11	-1.65
Menywod sy'n profi camdriniaeth ddomestig*	-10	-0.94

Nodyn

* Gwelwyd gostyngiad cyffredinol mewn gwariant rhwng 2013-14 a 2016-17 ym mhob un o'r categorïau cleient yn y tabl hwn. Fodd bynnag, nid oedd y duedd hon yn gyson ar draws yr holl flynyddoedd, ac fe gafwyd rhywfaint o amrywio. Dim ond yn y pum categori y cyfeiriwyd atynt y cafwyd gostyngiad cyson o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Darperir y ffigurau o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn Atodiad 5.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

- 2.52 Derbyniodd pedwar categori o gleientiaid fwy o gyllid yn 2016-17 yn nhermau arian parod na'r cyllid a gawsant yn 2013-14; pobl â phroblemau yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau (alcohol); dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig, Pobl â statws ffoadur a phobl ag anhwylderau datblygu. Fodd bynnag, arhosodd y gyfran gyffredinol o gyllid ar gyfer y tri olaf o'r grwpiau hyn yn gymharol fach, sef llai nag 1% ([Atodiad 4](#)).
- 2.53 Mae Llywodraeth Cymru o'r fod y gostyngiad mewn gwariant ar 'bobl ag anableddau dysgu' yn debygol iawn o ddeillio o adolygiadau awdurdod lleol lle canfuwyd nad oedd peth o'r cymorth yn gymwys. Gan amlaf, byddai'r adolygiadau hyn yn canfod bod peth o'r cymorth a oedd yn cael ei ddarparu drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn gymorth nad oedd yn gysylltiedig â thai, ond yn hytrach yn gymorth 'gofal', nad yw'n gymwys o dan y Rhaglen. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth ynghylch a yw ffynonellau cyllid eraill yn llenwi'r bwlch a adawir ar ôl tynnu cyllid Cefnogi Pobl yn ôl. Nid ydym wedi mynd ar drywydd y mater hwn gyda'r holl awdurdodau lleol.³² Fodd bynnag, gwyddom fod un awdurdod (Blaenau Gwent) wedi ailfodelu ei wasanaethau anableddau dysgu er mwyn cael gwared â'r elfennau gofal o'r Rhaglen Cefnogi Pobl, ac yn lle hynny eu hariannu o'i gyllideb gofal cymdeithasol oedolion.
- 2.54 Oherwydd y diffyg data cadarn ar ddeilliannau ([paragraffau 2.23 i 2.36](#)) ni allwn asesu effaith y newidiadau a wnaed mewn ymateb i ostyngiadau cyllidebol. Fodd bynnag, mewn arolwg o aelodau Tai Cymunedol Cymru a Chymorth Cymru yn 2016, nodwyd ystod o bryderon ynghylch ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau Cefnogi Pobl yn sgil y gostyngiadau mewn cyllid. Cafwyd cyfradd ymateb o oddeutu 33% i'r arolwg, ac ni wyddys a yw'r pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr yr arolwg yn bryderon a deimlir ar raddfa ehangach.
- 2.55 Cododd rhai o'r swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl, darparwyr ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol y buom yn eu cyfweld bryderon penodol ynghylch ansawdd neu gynaliadwyedd gwasanaethau. Fodd bynnag, ni chafodd y pryderon hynny eu mynegi ar raddfa eang.

32 Mae'r Archwilydd Cyffredinol ar hyn o bryd yn cynnal archwiliad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn comisiynu eu gwasanaethau anableddau dysgu mewn modd strategol. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y modd y mae comisiynu yn cyfrannu at wella deilliannau a llesiant dinasyddion. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiad ar y gwaith hwn tua diwedd 2017.

Nid yw gwaith i aiddosbarthu cyllid i'r ardaloedd lle ceir y mwyaf o angen wedi mynd rhagddo mor gyflym ag a ragwelwyd

Ataliodd Llywodraeth Cymru y fformiwla ariannu yn ystod 2013-14, ond aeth rhagddi i weithredu elfen o aiddosbarthu

- 2.56 Datblygodd a gweithredodd Llywodraeth Cymru fformiwla ariannu newydd ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Yn unol ag un o argymhellion adolygiad Aylward, pwrpas y fformiwla ariannu oedd aiddosbarthu cyllid y Rhaglen i'r ardaloedd lle ceir y mwyaf o angen.³³
- 2.57 Yn nhermau arian parod, cyflwynwyd toriad o 1.3% i gyllideb y Rhaglen yn 2014-15, a thoriad o 7.4% yn 2015-16. Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid a modelu effeithiau toriadau cyllidebol ar awdurdodau lleol unigol, penderfynodd Llywodraeth Cymru atal y fformiwla. Yr oedd yn pryderu y byddai parhau i weithredu'r fformiwla yn achosi i rai awdurdodau lleol brofi toriadau mor fawr fel y byddai hynny'n dadsefydlogi gwasanaethau. Er enghraifft, rhwng 2012-13 a 2013-14, roedd Cyngor Caerdydd eisoes wedi colli £0.8 miliwn o'i ddyraniad yn sgil aiddosbarthu. Gyda'i gilydd, collodd awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru oddeutu £0.3 miliwn.
- 2.58 Fodd bynnag, parhaodd Llywodraeth Cymru â rhai elfennau aiddosbarthu:
- a yn 2014-15, cafwyd gostyngiad yn nyrianiad cyllid awdurdodau lleol a ddisgwyliai ostyngiad o dan y fformiwla aiddosbarthu. Ni wnaeth y rhai a ddisgwyliai gynnydd yn eu dyraniad o dan y fformiwla aiddosbarthu dderbyn y cynnydd hwnnw, ond ni chafodd eu dyraniad ei ostwng ychwaith.
 - b yn 2015-16, cafodd cyllid yr holl awdurdodau lleol ei ostwng, ond derbyniodd y rhai a oedd i fod i golli cyllid o dan y fformiwla aiddosbarthu ostyngiad mwy na'r rhai a oedd yn disgwyl cyllid ychwanegol.
- 2.59 Yn 2016-17 a 2017-18, parhaodd cyllideb y Rhaglen yn sefydlog, a derbyniodd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yr un dyraniad â 2015-16 yn nhermau arian parod.

³³ Roedd y dull gwreiddiol yn ddiffygiol gan fod dyraniadau cyllid yn llwyr ddibynnol ar yr adnoddau a oedd ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i wneud cais am gyllid, a pha mor weithgar yr oeddent wrth hyrwyddo ceisiadau gan bobl mewn angen.

2.60 Cafwyd rhywfaint o symudiad tuag at ailddosbarthu'r cyllid wrth gymhwyso'r fformiwla. Fodd bynnag, pe bai Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithredu'r fformiwla, byddai rhai awdurdodau lleol wedi derbyn llawer mwy 2016-17, ac eraill wedi derbyn llawer llai, na'u dyraniadau gwirioneddol (**Dangosyn 5**). Yn yr achosion mwyaf eithafol:

- a derbyniodd Sir Ddinbych gyfanswm o £1.94 miliwn yn fwy nag y byddai wedi gwneud pe bai Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithredu'r fformiwla, sef £20.53 fesul pen o'r boblogaeth; a
- b derbyniodd Merthyr Tudful gyfanswm o £1.69 miliwn yn llai nag y byddai wedi gwneud pe bai Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithredu'r fformiwla, sef £28.43 fesul pen o'r boblogaeth.

Dangosyn 5: Swm y cyllid a dderbyniodd pob awdurdod lleol yn 2016-17 o gymharu â'r hyn y byddent wedi'i dderbyn pe bai'r ailddosbarthu wedi parhau

Awdurdod Lleol	2016-17 fesul pen o'r boblogaeth (£oedd)	Rhagamcan o'r swm i'w dderbyn yn 2016-17 fesul pen o'r boblogaeth pe bai'r cynllun ailddosbarthu wedi'i weithredu'n llawn (£oedd)	Y gwahaniaeth rhwng gwariant gwirioneddol a'r gwariant rhagamcanol fesul pen o'r boblogaeth (£oedd)	Y gwahaniaeth yn nhermau arian parod (£miliynau)
Merthyr Tudful	35.79	64.22	-28.43	-1.69
Blaenau Gwent	36.7	53.09	-16.39	-1.14
Castell-nedd Port Talbot	34.01	46.94	-12.93	-1.82
Sir Benfro	22.03	33.67	-11.64	-1.44
Rhondda Cynon Taf	38.15	43.93	-5.79	-1.37
Sir Gaerfyrddin	35.09	40.81	-5.72	-1.06
Casnewydd	43.09	48.72	-5.63	-0.83

Dangosyn 5: Swm y cyllid a dderbyniodd pob awdurdod lleol yn 2016-17 o gymharu â'r hyn y byddent wedi'i dderbyn pe bai'r aiddosbarthu wedi parhau

Awdurdod Lleol	2016-17 fesul pen o'r boblogaeth (£oedd)	Rhagamcan o'r swm i'w dderbyn yn 2016-17 fesul pen o'r boblogaeth pe bai'r cynllun aiddosbarthu wedi'i weithredu'n llawn (£oedd)	Y gwahaniaeth rhwng gwariant gwirioneddol a'r gwariant rhagamcanol fesul pen o'r boblogaeth (£oedd)	Y gwahaniaeth yn nhermau arian parod (£miliynau)
Pen-y-bont ar Ogwr	40.93	46.1	-5.17	-0.73
Caerffili	34.6	37.94	-3.35	-0.6
Bro Morgannwg	27.17	28.41	-1.24	-0.16
Torfaen	37.43	37.64	-0.2	-0.02
Sir Fynwy	22.05	21.71	0.34	0.03
Abertawe	57.01	55.51	1.49	0.36
Caerdydd	45.55	43.88	1.67	0.6
Wrecsam	36.45	34.46	1.99	0.27
Ynys Môn	37.78	35.71	2.07	0.14
Gwynedd	41.05	33.04	8.01	0.98
Ceredigion	39.42	28.79	10.63	0.79
Powys	38.74	26.02	12.72	1.69
Sir y Fflint	37.71	24.24	13.47	2.07
Conwy	55.52	38.23	17.29	2.01
Sir Ddinbych	57.97	37.45	20.53	1.94

Sylwer:

Er cymhariaeth, rydym wedi seilio peth o'r data uchod ar y ffigur fesul pen o'r boblogaeth. Fodd bynnag, nid yw'r fformiwla a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi aiddosbarthu yn seiliedig ar faint y boblogaeth yn unig. Ceisiai'r fformiwla hefyd ystyried lefel yr angen lleol am gymorth yn gysylltiedig â thai.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

2.61 Yn ystod ein gwaith maes, mynegodd yr awdurdodau lleol a oedd yn disgwyl derbyn cynnydd mewn cyllid yn sgil y fformiwla ailddosbarthu rwystredigaeth fod y fformiwla wedi'i thynnu'n ôl. Ar y llaw arall, mynegodd yr awdurdodau lleol a wynebai'r gostyngiad mwyaf yn eu cyllid oherwydd y fformiwla ariannu bryderon ynghylch sut y byddent yn ymdopi pe bai Llywodraeth Cymru yn ei hailgyflwyno. Yn ogystal â hyn, mynegodd rhai cynghorau fod pryderon o hyd ynghylch sail y fformiwla.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried gweithredu fformiwla ariannu ddiwygiedig, ond nid yw'r amserlen ar gyfer hynny wedi'i chadarnhau eto

2.62 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dichonoldeb cyflwyno fformiwla ariannu ddiwygiedig er mwyn parhau i ailddosbarthu cyllid y Rhaglen i'r ardaloedd daearyddol lle ceir y mwyaf o angen. Wrth wneud hynny, y mae'n ymateb i un o argymhellion y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod ailgyflwyno fformiwla o'r fath, mewn cyfnod lle gallai'r Rhaglen brofi gostyngiadau pellach, yn debygol o effeithio ar rai gwasanaethau yn lleol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y dylid dyrannu cyllid y Rhaglen ar sail angen yn hytrach na darpariaeth y gorffennol. Mae'r fformiwla flaenorol yn cynnwys nifer o newidynnau na cheir unrhyw ffigurau cyfredol ar eu cyfer.

2.63 Roedd y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl wedi bod yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu'r fformiwla newydd ar gyfer 2018-2019. Mae'n debygol bod yr amserlen hon yn uchelgeisiol braidd, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni unrhyw waith eto i nodi'r elfennau data y gellid eu cynnwys mewn fformiwla ddiwygiedig. Bu sefydlu cytundeb ynghylch y fformiwla a gyflwynwyd yn 2012-13 yn gryn her, ac fe gymerodd 12 mis o waith cyn iddi gael ei gweithredu.

2.64 Er mwyn gweithredu'r fformiwla ar gyfer 2018-19, byddai angen i Lywodraeth Cymru fod wedi ei dyfeisio mewn pryd i awdurdodau lleol dderbyn eu dyraniadau dangosol tua diwedd 2017 a chyflwyno eu cynlluniau gwariant ym mis Ionawr 2018. Yn ogystal â hyn, heb ddealltwriaeth glir o lefelau ariannu'r Rhaglen dros y tymor canolig, bydd hi'n anodd i Lywodraeth Cymru foddelu effaith unrhyw fformiwla ar ddyraniadau awdurdodau lleol unigol. Wrth gyflwyno unrhyw fformiwla newydd, mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r amcanion strategol a gadarnhawyd yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar, ac effaith datblygiadau polisi ehangach ([paragraff 1.5](#)).

Rhan 3

Ceir anghysondebau yn y modd y mae'r Rhaglen yn cael ei rheoli ar raddfa leol a rhanbarthol, a hynny'n rhannol oherwydd natur annigonol y canllawiau gan Lywodraeth Cymru



- 3.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad archwilir agweddau ar reolaeth leol a rhanbarthol y Rhaglen. Yn benodol, mae'n trafod materion sy'n gysylltiedig â chynllunio rhanbarthol, caffael gwasanaethau, dadansoddiad o gostau gwasanaethau ac ansawdd y rheolaeth ar y Rhaglen ar raddfa leol.

Defnyddir asesiadau o anghenion y sail ar gyfer Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol, ond mae Llywodraeth Cymru wedi canfod bod ansawdd yr asesiadau hyn yn amrywio

- 3.2 Roedd canllawiau Rhaglen 2013, yn cynnwys y gofyniad i bob awdurdod lleol gynnal ymarferion i fapio'r anghenion a'r cyflenwad, a chynnal dadansoddiad o fylchau, er mwyn i'r holl grwpiau cymwys dderbyn cymorth. Pwrpas mapio anghenion yw sicrhau bod cynlluniau comisiynu a phenderfyniadau awdurdodau lleol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
- 3.3 Yn ôl y canllawiau, dylid mapio'r anghenion a'r cyflenwad a dadansoddi bylchau yn rheolaidd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r gweithgarwch hwn gael ei gyflawni bob blwyddyn ar gyfer pob grŵp cymwys. Fodd bynnag, nodir bod yr awdurdod lleol yn gyfrifol am gasglu mwy o wybodaeth am anghenion ac argaeledd gwasanaethau priodol os gwelir bod blaenoriaeth yn dod i'r amlwg neu fwlch yn y gwasanaeth a ddarperir. Nodir hefyd yn y canllawiau fod yn rhaid seilio ymarferion mapio anghenion a dadansoddi bylchau ar waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, dylid mapio anghenion yn rhanbarthol er mwyn helpu i nodi blaenoriaethau yng nghynlluniau comisiynu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.
- 3.4 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi adolygu ansawdd gwaith mapio a dadansoddi anghenion ar raddfa awdurdod lleol nac ar raddfa ranbarthol. Fodd bynnag, y mae wedi nodi amrywiadau yn ansawdd y gwaith a gyflawnir. Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at enghreifftiau da yng Ngwent o ddefnyddio ystod o ddata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i greu darlun o'r cyflenwad a'r galw am wasanaethau. Fodd bynnag, cyfeiriai Llywodraeth Cymru hefyd at nifer o bryderon yn y rhanbarthau eraill:
- a mewn rhai achosion, nid yw'n glir sut mae timau Cefnogi Pobl a'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn defnyddio gwybodaeth o'r ymarfer mapio anghenion;
 - b mewn un ardal, mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu'r angen am ddull cyson o fapio anghenion ar draws y rhanbarth ym mhob un o'i thri adolygiad rhwng 2014-15 a 2016-17;
 - c mewn nifer o achosion, ceir gormod o ffocws ar gasglu gwybodaeth am y galw yn unig, a dim digon o weithredu i fodloni anghenion sydd heb eu bodloni; ac

d mae o leiaf un Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol heb ddull cyson o fapio anghenion ar draws ei holl awdurdodau cyfansoddol. O ganlyniad i hynny, mae'r awdurdodau lleol cyfansoddol yn defnyddio gwahanol setiau data, sy'n danodd eu cyfuno i greu dadansoddiad rhanbarthol.

3.5 Bellach, mae'n ofynnol³⁴ i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal asesiadau o lesiant lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ychwanegol at hyn, mae'n ofynnol hefyd i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol hefyd gynnal asesiadau o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Efallai fod lle i ddefnyddio'r dadansoddiad mapio anghenion lleol o'r ddwy broses hon i leihau'r gwaith sy'n cael ei ail-wneud a chasglu gwybodaeth am anghenion sydd heb eu bodloni. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i greu cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ers 2016, bu'n ofynnol i'r pwyllgorau roi adborth yn eu hadroddiadau blynyddol ar y cysylltiadau y maent wedi'u creu â'r byrddau hyn. Mae maint y cynnydd a adroddir yn amrywio.

Dim ond dyraniadau cyllid blynyddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn wedi amharu ar waith cynllunio lleol

3.6 Yn ôl canllawiau'r Rhaglen ar gyfer 2013, nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth bob blwyddyn, yn rhoi dyraniad cadarn i awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, a dyraniad ariannol dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ganlynol. Fodd bynnag, ers diwedd 2012-13, dim ond ar un achlysur yn unig y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigurau dros gyfnod o dair blynedd i awdurdodau lleol. Yn benodol:

- a Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ffigurau dangosol ar gyfer 2014-15 a 2015-16.
- b Ym mis Hydref 2013, rhoddodd Llywodraeth Cymru ffigurau dangosol ar gyfer 2014-15 a 2015-16;
- c Ym mis Tachwedd 2014, mis Ionawr 2016, a mis Rhagfyr 2016, rhoddodd Llywodraeth Cymru ffigurau dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn unig.

34 Partneriaethau statudol o asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus yw Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus. Maent yn gyfrifol am gydweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu bwrdd o'r fath.

- 3.7 Yn ogystal â hyn, yn nhair o'r pedair blynedd ers 2012, roedd Llywodraeth Cymru yn hwyr yn cyhoeddi ei llythyrau cynnig grant terfynol i awdurdodau lleol. Yn benodol, ni dderbyniodd awdurdodau lleol eu llythyrau grant ar gyfer 2014-15 hyd ganol mis Mai. Fodd bynnag, deellir mai ond yn 2014-15 y cafwyd gwahaniaeth rhwng y dyraniad grant dangosol a'r grant a ddyrannwyd yn derfynol. Cyn cyhoeddi llythyrau cynnig grant terfynol 2014-15, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyllideb y Rhaglen Cefnogi Pobl i ariannu swyddi Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol. Cyn 2014-15, roedd swyddi'r Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol yn cael eu hariannu drwy'r Grant Rheoli Tai Cymdeithasol.³⁵ Ar ôl cyhoeddi'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2014-15, penderfynodd Llywodraeth Cymru ariannu'r swyddi drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Oherwydd y newid hwn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ostyngiad ychydig yn llai nag £15,000 i ddyraniad pob awdurdod lleol ar gyfer 2014-15. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi parhau i ariannu'r swyddi ers 2014-15.
- 3.8 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod i Lywodraeth Cymru yn nhrydedd wythnos ym mis Ionawr. Mynegodd swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl mewn awdurdodau lleol bryderon ynghylch eu gallu i gynllunio'n effeithiol oherwydd yr amserlen dynn rhwng derbyn eu dyraniadau dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a chyflwyno eu cynlluniau gwariant.
- 3.9 Rhwng derbyn eu dyraniad dangosol a chyflwyno cynlluniau gwariant i Lywodraeth Cymru, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod eu cynlluniau gwariant yn cael eu cymeradwyo gan aelodau awdurdod lleol. Mae gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ran i'w chwarae drwy gyfrannu at y cynlluniau a chraffu'n effeithiol arnynt. Fodd bynnag, mae'r amserlenni ar gyfer cyflwyno cynlluniau gwariant wedi golygu bod hyn yn anodd o safbwynt ymarferol, gan olygu nad yw rhan y Pwyllgor yn fawr mwy na gweithred o roi sêl bendith.
- 3.10 Roedd y dull blynyddol o bennu cyllidebau 2015-16, 2016-17 a 2017-18 hefyd yn destun rhwystredigaeth i swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl yr awdurdod lleol. Dywedwyd wrthym fod y dyraniad blynyddol hwn, ynghyd â'r posibilrwydd o ostyngiadau pellach mewn cyllid, yn oedi'r Rhaglen, yn amharu ar eu gallu i sefydlu gwasanaethau hirdymor, wedi creu diwylliant o fân gynlluniau peilot untro ac yn achosi ansefydlogrwydd yn narpariaeth y gwasanaeth a throsiant uchel o staff. Dywedodd nifer o swyddogion arweiniol awdurdod lleol wrthym y byddent yn hoffi ariannu eu darparwyr gwasanaeth am dair blynedd ar y tro. Mae hyn yn arbennig o wir lle canfuwyd wrth adolygu gwasanaethau fod y darparwyr hyn yn cynnig gwerth am arian. Fodd bynnag, amlygwyd yn adolygiadau Llywodraeth Cymru ei hun enghreifftiau lle'r oedd awdurdodau lleol wedi cyflwyno nifer sylweddol o gontractau tair blynedd.

35 Mae'r Grant Rheoli Tai Cymdeithasol wedi cael ei ail-enwi yn Rhaglen Datblygu Polisi Tai. Mae'n cynorthwyo i dreialu polisiau a chynlluniau rheoli arloesol, datblygu arferion da wrth reoli tai a chynorthwyo i weithredu polisiau newydd ar gyfer rheoli tai.

- 3.11 Nid yw'r her o reoli ar sail dyraniad cyllid blynyddol yn unigryw i'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Rydym wedi tynnu sylw at broblemau tebyg mewn sawl adroddiad arall dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â darparu cyllidebau blwyddyn o hyd ar gyfer Cefnogi Pobl. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion wrthym nad oes cynlluniau i addasu'r dull hwn, o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Gallai canllawiau Llywodraeth Cymru ar gaffael gwasanaethau Cefnogi Pobl fod yn gamarweiniol, ac fe geir peth tystiolaeth bod arferion caffael yn amrywio

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar reolau caffael wedi creu disgwyliadau ymhlith darparwyr na all awdurdodau lleol eu bodloni o reidrydd

- 3.12 Yn ystod ein gwaith maes, dywedodd rhai darparwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl wrthym fod rhai awdurdodau lleol, yn eu barn hwy, yn rhoi gwasanaethau Cefnogi Pobl yn ôl allan ar dendr lle nad oedd angen gwneud hynny, gan anelu'n bennaf i dorri costau'r gwasanaethau hynny. Yn ôl canllawiau cyfredol y Rhaglen, 'Dylid cynnal ymarferion caffael a gweithredu rheoliadau caffael arferol ar gyfer gwasanaethau newydd, ond ar yr amod bod cyfundrefn adolygu gadarn a rheolaidd yn cael ei gweithredu, ni ragwelir y bydd gwasanaethau cefnogi pobl yn cael eu hail-dendro yn rheolaidd, ac ni fydd ymarferion ail-dendro fel arfer ond yn cael eu cynnal ar ôl cynnal adolygiad o wasanaethau. Bydd yr adolygiad hwnnw wedi canfod bod y gwasanaeth yn strategol amherthnasol, o ansawdd isel neu heb adlewyrchu canllawiau cost derbyniol, ac nad yw'n gallu cyflwyno newidiadau i ymdrin â'r diffygion a nodwyd'.
- 3.13 Dywedodd swyddogion Cefnogi Pobl wrthym y byddent yn gwerthfawrogi cael canllawiau cliriach ynghylch ail-dendro. Fodd bynnag, mae'r canllawiau Rhaglen diwygiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi er mwyn ymgynghori arnynt yn parhau i awgrymu nad oes angen ail-dendro, ond ar ôl canfod drwy adolygiad bod y gwasanaeth yn ddiffygiol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

- 3.14 Yn ein barn ni, gallai'r canllawiau hyn ar ail-dendro gwasanaethau presennol Cefnogi Pobl fod yn gamarweiniol. Penderfynir ar yr union broses i'w dilyn er mwyn cydymffurfio â rheoliadau caffael ar sail cyfanswm gwerth y contract a natur y gwasanaeth dan sylw. Serch hynny, disgwylir o hyd fod cyrff cyhoeddus yn caffael yr holl wasanaethau yn unol ag egwyddorion y rheoliadau caffael cyhoeddus, a ddylai arwain yn naturiol at brofi'r farchnad o dro i dro. Yn ogystal â hyn, nodir yn nheleau ac amodau grant Llywodraeth Cymru fod yn rhaid prynu nwyddau ac/neu wasanaethau mewn modd cystadleuol a chynaliadwy i gyflawni dibenion Cefnogi Pobl, gan arddangos gwerth am arian.
- 3.15 Yn ôl y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015)³⁶ mae rhoi estyniad lle nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hynny mewn contract, yn addasiad o bwys i'r contract gwreiddiol, ac felly'n golygu bod angen ail-dendro'r gwasanaethau dan sylw. Mewn egwyddor, mae estyn contractau heb ddarpariaeth i wneud hynny yn gyfystyr â chyflawni gweithred tendro sengl³⁷. Os bydd awdurdodau'n cyflawni gweithred tendro sengl, dylid rhoi tystiolaeth amddiffynadwy o'r holl resymau am y weithred honno. Mae rheoliadau caffael yn caniatáu gweithredoedd tendro sengl mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys:
- a bod brys eithriadol i dendro;
 - b nad oes ond un tendr wedi dod i law;
 - c diogelu hawliau neilltuol; ac
 - d mai ond un cyflenwr posibl sydd ar gael am resymau technegol.
- 3.16 Gwelsom fod y canllawiau wedi creu tensiwn rhwng darparwyr ac awdurdodau lleol. Y maent wedi creu'r ymdeimlad ymhlith rhai darparwyr na ddylai awdurdodau ail-dendro gwasanaethau tra bo'r gwasanaethau hynny'n cynnig gwerth am arian. Canfu arolwg ar y cyd o ddarparwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl hefyd a gynhaliwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymorth Cymru ([paragraff 2.54](#)) hefyd fod y canllawiau wedi cyfrannu at ddisgwyliaid darparwyr ynghylch y graddau y dylai cyrff cyhoeddus ail-dendro gwasanaethau.

³⁶ Mae'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015) yn trosi Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar gaffael cyhoeddus (Cyfarwyddeb 2014/24/EU Senedd a Chyngor Ewrop ar 26 Chwefror 2014 ar gaffael cyhoeddus) yn gyfraith yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

³⁷ Pan fydd contract yn cael ei ddyfarnu i un darparydd neu i grŵp cyfyngedig o ddarparwyr - heb gystadleuaeth.

- 3.17 Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar ar y Modd y mae **Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector**³⁸ canfuom dystiolaeth debyg fod nifer fach o awdurdodau lleol yn parhau i gaffael gwasanaethau o'r un sefydliadau trydydd sector heb brofi'r farchnad yn rheolaidd i sicrhau bod eu hadnoddau'n esgor ar yr enillion gorau. Ceir sawl risg yn gysylltiedig â'r dull hwn:
- a lleihau'r gronfa o gyflenwyr posibl;
 - b gweithio'n anfwriadol yn erbyn amcan Llywodraeth Cymru, sef y dylai awdurdodau lleol ddatblygu sefydliadau trydydd sector lleol;
 - c creu rhwystredigaeth ymhlith darparwyr os ydynt yn ystyried bod dulliau caeedig o'r fath yn annheg; a
- ch chyfyngu ar gyfleoedd i awdurdodau lleol ysgogi gwelliannau ac arbedion effeithloni pellach.

Serch hynny, roeddem hefyd yn cydnabod bod gweithio o fewn partneriaethau sefydledig yn gallu lleihau neu gyfyngu ar risgiau hyn i awdurdodau lleol.

Ceir dystiolaeth bod arferion caffael yn amrywio, gyda rhai awdurdodau lleol yn gwneud mwy o ddefnydd o estyniadau contract nag eraill, yn lle rhoi contractau yn ôl ar dendr unwaith eto

- 3.18 Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan ddarparwyr ynghylch arferion caffael, casglwyd rhywfaint o wybodaeth ychwanegol gan awdurdodau lleol. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol am gyfanswm y contractau a gafodd eu hestyn, a chyfanswm y contractau a ddyfarnwyd drwy ymarfer caffael llawn yn ystod 2015-16.³⁹
- 3.19 Adroddodd awdurdodau lleol eu bod wedi gosod 33 o gontractau drwy ymarferion caffael llawn yn 2015-16, ond ni adroddodd 10 o awdurdodau unrhyw ymarferion o'r fath. Yn groes i hyn, awgrymai'r ymatebion a gawsom fod nifer y contractau a gafodd eu hestyn oddeutu bum gwaith yn fwy na hyn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd y gweithgarwch a gyflawnwyd yn cynnwys rhesymoli nifer fawr o gontractau er mwn cael nifer llai ohonynt yn dilyn adolygiadau sylweddol o wasanaethau. Roedd rhai awdurdodau lleol yn sensitif i'r aflonyddwch a'r effaith ar adnoddau darparwyr yn sgil ail-dendro gwasanaethau, ond amlygai'r awdurdodau hynny hefyd ei bod hi'n ofynnol iddynt 'brofi'r farchnad' yn ôl rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal â hyn, mae rhai awdurdodau lleol wedi

38 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector**, Ionawr 2017

39 Ni ofynnwyd wrth awdurdodau lleol am wybodaeth ynghylch estyniadau contract neu gaffaeliadau yn ystod blynyddoedd eraill. Gan hynny, ni wyddom a fyddai'r patrymau a welwyd wedi cael eu hadlewyrchu mewn cyfnodau eraill.

dyfarnu contractau'n uniongyrchol i ddarparwyr presennol ar sail telerau ac amodau gwahanol yn dilyn adolygiadau gwasanaeth, gan geisio sicrhau arbedion, neu wedi estyn contractau fel bo modd cynnal adolygiadau gwasanaeth.

- 3.20 Fel enghraifft, esboniodd Cyngor Sir Caerdydd wrthym mai ei brif ddull oedd rhoi gwasanaethau allan ar dendr, er ei fod wedi ailgomisiynu rhai gwasanaethau'n flaenorol drwy ddyfarniadau uniongyrchol. Ei nodau oedd: cydymffurfio â thelerau ac amodau grantiau a chyngor cyfreithiol a chaffael Llywodraeth Cymru. sicrhau gwerth gorau am arian drwy gaffael; mynd i'r afael ag achosion o danddefnyddio rhai gwasanaethau; manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd am arbedion maint; mynd i'r afael ag achosion o ail-wneud gwaith ar draws rhai gwasanaethau a rhesymoli nifer y contractau.⁴⁰ Mae'r Cyngor ar ganol proses gomisiynu tair blynedd o hyd ac, yn 2016-17, ailgomisiynodd ei gymorth cyffredinol fel y bo'r angen drwy broses gaffael lawn. Gostyngwyd nifer y contractau o bedwar ar ddeg i ddau, ac mae'r Cyngor yn adrodd ei fod wedi sicrhau dros £900,000 o arbedion, gan fod yn hyderus ar yr un pryd fod ansawdd y gwasanaeth wedi gwella.
- 3.21 Rhoddodd awdurdodau lleol fanylion pellach inni am 74 o gontractau a oedd wedi'u hestyn.⁴¹ Roedd estyniadau contract yn amrywio rhwng 4 mis a 48 mis. Ychydig o dan 19 mis oedd hyd yr estyniad contract cyfartalog.
- 3.22 O'r 74 o estyniadau contract, adroddodd awdurdodau lleol fod 26 (35%) ohonynt wedi'u hestyn, er nad oedd y contract gwreiddiol yn cynnwys darpariaeth estyn. Yr oedd y rhain felly'n gyfystyr â dyfarniadau uniongyrchol ([paragraff 3.15](#)). Nid ydym wedi archwilio manylion y trefniadau contractio hyn er mwyn canfod a oeddent, yn ymarferol, yn cydymffurfio â pholisïau caffael lleol a rheoliadau caffael ehangach. Fe'n hysbyswyd gan awdurdodau lleol fod eu gweithdrefn gontractau yn caniatáu iddynt ddefnyddio hysbysiadau eithrio contract i wneud hyn. Rhoddodd awdurdodau ddau brif reswm dros estyn contractau heb ddarpariaeth i wneud hynny:
- a roedd awdurdodau lleol yn hyderus bod y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn sicrhau gwerth am arian, felly nid oeddent yn credu y ceid unrhyw fanteision yn sgil ymarfer caffael. Dywedwyd wrthym eu bod wedi ennill y sicrwydd hwnnw drwy adolygiadau gwasanaeth a thrwy ddeialog parhaus â'r darparwyr, a oedd eisoes wedi lleihau costau mewn rhai achosion. Er enghraifft, yn ystod Cyngor Sir y Fflint 2015-16 estynnodd ei gontractau ar gyfer gwasanaethau safle sefydlog i bobl ifanc a theuluoedd ag anghenion cymorth. Dywedodd

⁴⁰ Ym mis Mai 2017, darparodd Cyngor Dinas Caerdydd wasanaethau Cefnogi Pobl o dan 35 o gontractau wedi'u cyflenwi gan 27 o sefydliadau trydydd sector a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r Cyngor yn darparu rhai gwasanaethau'n uniongyrchol, gan gynnwys: hosteli i bobl ddi-gartref, larymau cymunedol, gwasanaethau warden teithiol a gwasanaethau i gleientiaid ag anableddau dysgu.

⁴¹ Gofynnwyd i'r cynghorau am wybodaeth ychwanegol am y 5 contract mwyaf. Ni wnaeth pob awdurdod lleol roi estyniad ar hyd at bum contract, ond rhoddodd rhai ohonynt estyniad ar fwy na phum contract.

swyddogion wrthym eu bod wedi cwblhau adroddiadaueithrio tendro, a chynnal adolygiad llawn o'r prosiectau yn ddiweddar. Canfuwyd eu bod yn perfformio'n dda a bod costau prosiect wedi'u gostwng i lefel a oedd o fewn y costau meincnodi a bennwyd gan y Cyngor. O ganlyniad i hyn, safbwynt y Cyngor oedd y byddai peryg i ymarfer caffael llawn darfu ar y prosiectau a oedd yn cynnig gwerth am arian.

- b) dywedodd awdurdodau lleol wrthym eu bod yn estyn y contractau nes eu bod yn gallu adolygu, ailfodelu a chaffael gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu uchafswm o 10% ar gyfer taliadau rheoli, yn sgil pryderon ynghylch arferion amrywiol

- 3.23 Roedd canllawiau Rhaglen 2013 yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol ynghylch sut i amcangyfrif costau gwasanaethau Cefnogi Pobl unigol. Roedd y canllawiau yn cynnwys gwybodaeth am gostau cyfartalog rhai gwasanaethau ar y pryd. Nodai y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu data meincnodi ychwanegol ar gostau rheoli, fel costau swyddfa.
- 3.24 Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o 'daliadau rheoli' Cefnogi Pobl ([paragraff 2.8](#) ac [Atodiad 2](#)). Daeth yr adolygiad hwnnw ar ôl arolwg cychwynnol yn 2013 a ddangosai amrywio helaeth yn natur a graddfa'r gwariant a elwir yn 'daliadau rheoli' mewn gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl ledled Cymru. Rhan o gylch gwaith yr adolygiad oedd sefydlu'r diffiniad o daliadau rheoli a ddefnyddir gan ddarparwyr ac awdurdodau lleol. Roedd yr adolygiad hefyd yn asesu pa gyfran o gyllid y Rhaglen oedd yn cael ei gwario ar daliadau rheoli. Mewn ymateb i'r adolygiad, newidiodd Llywodraeth Cymru delerau ac amodau'r grant i nodi na ddylai taliadau rheoli fod yn uwch na 10% o gostau'r cynllun, oni ellir rhoi esboniad rhesymol am hynny. Gelwir hyn yn uchafswm 'cydymffurfio neu esbonio' ar daliadau rheoli.
- 3.25 Yng nghanllawiau diwygiedig y Rhaglen a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mai 2017, cyfyngir ar sylwebaeth ynghylch costau gwasanaethau i wybodaeth lefel uchel ynghylch yr hyn a ddylai gael ei ystyried yn dâl rheoli. Ailadroddir yr uchafswm cydymffurfio neu esbonio o 10% ar daliadau rheoli yn y canllawiau drafft. Gwelsom fod awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau i gyfrifo cost gwasanaethau Cefnogi Pobl. Er enghraifft, mae nifer fach o awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio'r system tariff⁴² a oedd ymhlith nodweddion y Rhaglen cyn 2012.

⁴² Pennwyd costau prosiectau blaenorol drwy ddefnyddio pris sefydlog a oedd wedi cael ei gytuno fel pris teg am fath neilltuol o brosiect, neu am lefel y llety oedd yn cael ei ddarparu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi canfod bod costau cyffredinol gwasanaethau yn amrywio'n helaeth, ond mae angen gwneud gwaith dadansoddi pellach er mwyn deall beth yw ystyr hyn

- 3.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi dadansoddi cynlluniau gwariant awdurdodau lleol er mwyn ceisio asesu i ba raddau y mae costau gwasanaethau Cefnogi Pobl yn amrywio. Ar gyfer pob categori cleient, nododd y gwasanaeth drytaf a'r rhataf oedd yn cael ei ddarparu ar sail cost fesul uned, a'r gost gyfartalog fesul uned. Y mae hefyd wedi cyfrifo'r 'lluosydd' - sef y nifer o weithiau y gellir cynnwys y gwasanaeth rhataf yn y gwasanaeth drytaf. Yn ôl y dadansoddiad hwn, mae cost gwasanaethau ledled Cymru yn amrywio i raddau sylweddol. Ar sail cynlluniau gwariant 2015-16, dyma'r ddau gategori lle gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf yng nghostau'r gwasanaeth fesul uned:
- a gwariodd un awdurdod lleol £357 fesul uned i ddarparu gwasanaethau i ymdrin â chamddefnydd o gyffuriau, ond gwariodd awdurdod lleol arall £18,350 fesul uned, sydd 52 gwaith yn fwy; a
 - b gwariodd un awdurdod lleol £392 fesul uned i ddarparu gwasanaethau i rai â hanes o droseddu, ond gwariodd awdurdod arall £11,700 fesul uned, sydd 30 gwaith yn fwy.
- 3.27 Fodd bynnag, ni ystyrir natur na hyd y cymorth a ddarperir yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru. Mae'n cymharu costau gwasanaethau sydd yn parhau am lai na 6 mis â chostau gwasanaethau sydd yn parhau am gyfnod hwy na 24 mis. Yn ogystal â hyn, mae ei dadansoddiad yn cymharu costau gwasanaethau sefydlog â gwasanaethau fel y bo'r angen, sydd yn tueddu i fod yn rhatach. Mae'n bosibl mai ond tynnu sylw at wasanaethau sydd yn allanolynnau a wneir wrth edrych ar yr achosion mwyaf eithafol - sef y gwasanaethau drytaf a rhataf o fewn categori o gleientiaid.
- 3.28 Aethom ni ati i geisio cynnal dadansoddiad manylach o'r data. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl, gan nad yw'r data a gesglir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys digon o wybodaeth am hyd y gwasanaethau. Rhennir y data i dri chategori: gwasanaethau sy'n parhau am lai na 6 mis; gwasanaethau sy'n parhau am gyfnod rhwng 6 a 24 mis a gwasanaethau sy'n parhau am gyfnod hwy na 24 mis.

Mewn adolygiadau gan Lywodraeth Cymru, gwelwyd bod ansawdd cyffredinol trefniadau awdurdodau lleol i reoli'r Rhaglen yn amrywio a bod rhai problemau i'w cael yn gysylltiedig â chymhwysedd y cymorth a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu

Ers mis Ebrill 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o adolygiadau o awdurdodau lleol sydd, mewn rhai achosion, wedi amlygu pryderon ynghylch trefniadau cynnal y Rhaglen

- 3.29 Gan ddechrau yn 2014, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gylch cyntaf o adolygiadau ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, er mwyn cael sicrwydd bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant a ddyrannwyd iddynt drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl mewn modd priodol. Cwblhaodd Llywodraeth Cymru ei chylch cyntaf o adolygiadau erbyn mis Rhagfyr 2015, ac ers hynny y mae wedi cwblhau ail gylch o adolygiadau yn rhannol (Bocs 8).
- 3.30 Rhoddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o negeseuon allweddol ei chyfres gyntaf o adolygiadau. Gwelodd amrywio rhwng perfformiad yr holl awdurdodau lleol, ac nid oedd yr un maes perfformiad da neu wael yn gyffredin i'r holl awdurdodau lleol. Ar gyfer gweithgareddau craidd fel manylebau contract a monitro contractau, roedd perfformiad yn amrywio i raddau sylweddol.
- 3.31 Wrth archwilio trefniadau monitro contractau, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld y canlynol:
- a amserlen o ymweliadau monitro rheolaidd gan awdurdodau leol â darparwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl, yn fras er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn darparu yn unol â gofynion y contract. Bydd ymweliadau'n cael eu trefnu i adlewyrchu ymagwedd sy'n seiliedig ar risg, drwy ddefnyddio gwybodaeth a gesglir gan yr awdurdod lleol, ee o adolygiadau gwasanaeth, data deilliannau ac ar gyfer nifer y cleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth.⁴³
 - b Cofnodion o gyfarfodydd yr ymweliadau monitro rheolaidd a chrynodeb o'r materion a drafodwyd, y camau gweithredu a gynigiwyd a chofnod o'r camau a gwblhawyd ers yr ymweliad diwethaf, a'r diweddaraf ynghylch hynny.

43 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymweliadau monitro contractau gynnwys archwiliad o'r canlynol: cydymffurfiaeth â'r contract; cydymffurfiaeth â pholisiau a chanllawiau cysylltiedig, er enghraifft, canllawiau'r Rhaglen; ansawdd y gwasanaeth; casglu a defnyddio data ar ddeilliannau a pherfformiad; lefelau adnoddau; hyfforddiant staff profiadu a rheolaeth ar gwynion defnyddwyr gwasanaeth. Ni nodwyd yng nghanllawiau'r Rhaglen ym mis Mehefin 2013 pa or aml y dylai awdurdodau lleol gynnal ymweliadau monitro. Fodd bynnag, nodir yn nrafft y canllawiau diwygiedig y dylid gwneud gwaith monitro bob blwyddyn o leiaf.

Bocs 8: Adolygiadau Llywodraeth Cymru o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflenwi'r Rhaglen

Nod yr adolygiadau oedd dilysu'r 'mewnbwn' ar wariant Cefnogi Pobl a'r 'allbwn' o wybodaeth ynghylch nifer y bobl a dderbyniodd gymorth. Roedd yr adolygiadau yn archwilio'r canlynol yn benodol:

- trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer caffael gwasanaethau Cefnogi Pobl (gan gynnwys meincnodi costau contractau);
- trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer monitro contractau'r gwasanaethau Cefnogi Pobl; a
- sut yr oedd awdurdodau lleol yn asesu anghenion cysylltiedig â thai yn eu cymunedau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ar sail yr anghenion hynny.

Rhodddwyd tri dyfarniad i bob awdurdod lleol:

- rhodddwyd 'sicrwydd llwyr' i 11, a olygai fod y tîm adolygu'n teimlo bod y Rhaglen yn cael ei chynnal a'i monitro'n effeithiol;
- rhodddwyd 'sicrwydd rhannol' i 7 ohonynt, a olygai fod gan y tîm adolygu rai pryderon ynglŷn â'r ffordd yr oedd y Rhaglen yn cael ei chynnal; a
- rhodddwyd 'sicrwydd anfodddhaol' i 4 ohonynt, a olygai fod gan y tîm adolygu bryderon o bwys ynglŷn â'r ffordd yr oedd y Rhaglen yn cael ei chynnal;

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau gweithredu i'r holl awdurdodau lleol, ond ar gyfer yr awdurdodau lle rhodddwyd dyfarniad 'sicrwydd llawn', nid oedd y cynlluniau hyn ond yn trafod mân faterion weinyddol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ail gylch o adolygiadau i roi sicrwydd parhaus ac i ystyried a yw awdurdodau lleol yn ymdrin â'r materion a nodwyd yn y cylch cyntaf o adolygiadau. Ym mis Chwefror 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau 13 o adolygiadau yn yr ail gylch, a oedd yn cynnwys yr holl awdurdodau lleol a gafodd ddyfarniad sicrwydd anfodddhaol neu sicrwydd rhannol yn eu hadolygiad cyntaf.

O'r 13 o adolygiadau a gynhaliwyd yn yr ail gylch, ystyriwyd bod pum awdurdod wedi gwella, derbyniodd chwech ohonynt yr un dyfarniad ag o'r blaen, ac ystyriwyd bod dau wedi dirywio. Yn gyffredinol, y canlyniadau oedd bod dau wedi cael sicrwydd llawn; naw wedi derbyn sicrwydd rhannol; a dau yn anfodddhaol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cwblhau'r ail gylch o adolygiadau erbyn diwedd 2017-18. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cynnal profion pellach er mwyn mynd ar drywydd pryderon penodol yn deillio o'r adolygiadau ail gylch y mae wedi'u cwblhau hyd yma.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 3.32 O'r rownd gyntaf o adolygiadau, canfu Llywodraeth Cymru nad oedd gan naw o'r 22 o awdurdodau leol dystiolaeth ddigonol ar-ffeil i ddangos eu bod yn monitro contractau'n briodol. Mewn tri o naw o'r adroddiadau hyn, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru yn benodol at adnoddau staff fel un o'r ffactorau wrth wraidd y gwendidau a geir wrth reoli contractau. Fodd bynnag, yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru gellir cysylltu unrhyw wendidau wrth fonitro contractau fel arfer â phrinder adnoddau yn y timau Cefnogi Pobl dan sylw. Ceir risgiau'n gysylltiedig â threfniadau gwael gan awdurdodau lleol i fonitro contractau, gan gynnwys methu adnabod gwasanaethau nad ydynt yn sicrhau'r budd a fwriadwyd, neu lle nad yw darparwyr yn rheoli'r Rhaglen yn dda. Er enghraifft, os nad yw darparwyr yn casglu'r data gofynnol ar ddeilliannau.
- 3.33 O'i hail gylch o adolygiadau, nododd Llywodraeth Cymru fod pedwar o'r naw awdurdod lleol lle canfuwyd gwendidau wrth fonitro contractau yn gwella eu trefniadau. Mae rhai o'r awdurdodau lleol eraill dan sylw wedi dweud wrthym eu bod wedi rhoi gwelliannau ar waith ers yr ail gylch o adolygiadau.

Mae'r adolygiadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â gwaith manylach yn y ddau ranbarth, wedi amlygu rhai problemau yn gysylltiedig â chymhwysedd pobl ag anableddau dysgu i dderbyn cymorth, a gwahaniaethau yn lefel y cymorth a roddir

- 3.34 Yn ei hadolygiadau diweddar, nododd Llywodraeth Cymru fod peth o'r cymorth a ariennir drwy'r Rhaglen i bobl ag anableddau dysgu yn anghymwys, gan nad oedd yn gymorth a oedd yn gysylltiedig â thai. O safbwynt Llywodraeth Cymru, arweiniodd hyn at y risg bod cyllid y Rhaglen, a fwriadwyd i ymdrin ag anghenion cymorth yn gysylltiedig â thai, yn cael ei ddefnyddio i gymorthdalau gweithgarwch iechyd a gofal cymdeithasol yn lle hynny.
- 3.35 Mae dau ranbarth (Gogledd Cymru a Gwent) wedi cynnal eu hadolygiadau manylach eu hunain o wasanaethau anableddau dysgu (**Atodiad 3, Bocs A1**). Yn adolygiad Gogledd Cymru, gwelwyd llawer o achosion lle'r oedd gwasanaethau a oedd yn cael eu hariannu drwy'r Rhaglen yn anghymwys. Mewn ymateb i hyn, mae Pwyllgor Cydweithredol Gogledd Cymru yn gofyn bod ei awdurdodau lleol cyfansoddol yn adrodd ar gynnydd tuag at sicrhau mai cymorth sy'n gysylltiedig â thai yw'r unig wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a ariennir drwy'r Rhaglen. Yn ogystal â hyn, sefydlodd y Pwyllgor is-grŵp i edrych ar ystod o faterion yn gysylltiedig â'r grŵp hwn o gleientiaid, fel y posibilrwydd o ddefnyddio teleofal yn lle gweithiwr cymorth, neu i gefnogi gweithiwr cymorth.

- 3.36 Yn adolygiad Gwent, nodwyd ystod o bryderon ynghylch darpariaeth anableddau dysgu a ariennir drwy'r Rhaglen. Roedd y materion a nodwyd yn cynnwys rhai achosion lle'r oedd risg bod cyllid y Rhaglen yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gofal yn hytrach na chymorth sy'n gysylltiedig â thai. Gwnaed wyth o argymhellion yn yr adolygiad, gan gynnwys y dylai'r holl gymorth i'r grŵp hwn o gleientiaid fod yn seiliedig ar asesiad o anghenion cysylltiedig â thai yr unigolyn. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol am oruchwyllo cynnydd tuag at yr amcan hwn.
- 3.37 Dengys y gwaith a gyflawnwyd yng Ngwent ac yng Ngogledd Cymru fod yr oriau o gymorth i bobl ag anableddau dysgu a ariennir gan awdurdodau lleol drwy'r Rhaglen yn amrywio'n helaeth. Yn rhan o raglen raddol i gwblhau asesiadau unigol o gymorth cysylltiedig â thai, penderfynodd Cyngor Sir Casnewydd yn 2015-16 y byddai'n cyfyngu ar gymorth i bobl ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl parhaus a ariennir drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl i wyth awr yr wythnos. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud wrthym eu bod yn gweithio ar y dybiaeth bod y rhan fwyaf o gleientiaid anableddau dysgu yn derbyn 10 awr o gymorth yr wythnos ar gyfartaledd, ond bod maint y cymorth a roddir yn seiliedig ar asesiad o anghenion. Gall unigolyn ag anableddau dysgu sy'n byw yng Nghonwy neu yn Sir y Fflint dderbyn hyd at 21 awr o gymorth drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn wir bod rhywun ag anableddau dysgu yn y naill ardal yn derbyn mwy neu lai o gymorth na rhywun mewn ardal arall. Efallai y bydd y pecyn cyfan o gymorth yr un peth, ond bod y cyllid i ddarparu'r cymorth hwnnw'n dod o wahanol ffynonellau.
- 3.38 Nid ydym yn gallu ffurfio barn bendant ynghylch a yw'r ddarpariaeth yn amrywio i'r un graddau ar draws grwpiau cleient eraill. Fodd bynnag, mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau eraill yn amrywio rhywfaint. Er enghraifft, nodwyd bod 16 o 22 o awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfer y grŵp cleientiaid 'teuluoedd sydd angen cymorth' yn 2016-17. Roedd pedwar awdurdod lleol ar ddeg yn darparu cymorth i bobl ag anableddau corfforol neu synhwyraidd drwy'r Rhaglen. Ar y llaw arall, dim ond tri awdurdod lleol a ddarparai gymorth drwy'r Rhaglen i bobl ag anhwylderau datblygu fel awtistiaeth. Mae'n bosibl bod anghenion unigolion yn cael eu bodloni drwy ffynonellau ariannu eraill. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd craffu'n effeithiol ar waith mapio anghenion, er mwyn sicrhau bod modd esbonio unrhyw ddiffyg darpariaeth drwy'r Rhaglen.

44 Nododd Cyngor Sir y Fflint fod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod yr holl wariant yn gymwys.

Atodiadau



Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Adolygu dogfennau a dadansoddi data

Buom yn adolygu ystod eang o ddogfennau, gan gynnwys:

- Canllawiau'r rhaglen Cefnogi Pobl a gyhoeddwyd yn 2013
- Adolygiadau wedi'u comisiynu o wahanol rannau o'r rhaglen
- Adolygiadau awdurdod lleol a gynhaliwyd gan swyddogion o Lywodraeth Cymru
- Adolygiadau blynyddol Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol
- Cynlluniau comisiynu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol
- Cynlluniau gwariant y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol
- Cynlluniau gwariant a dadansoddiadau o ddeilliannau a gynhelir gan swyddogion o Lywodraeth Cymru
- Sesiynau briffio'r Gweinidogion
- Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ac is-grwpiau amrywiol

Cyfweliadau

Cynhaliom gyfweliadau dros y ffôn â swyddogion â chyfrifoldeb arweiniol cyffredinol dros y rhaglen Cefnogi Pobl ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Buom hefyd yn cyfweld â chadeiryddion ac is-gadeiryddion y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a phob un o'r Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol.

Buom yn trafod gweinyddiaeth y Rhaglen â swyddogion o Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, cynhaliom amrywiaeth o gyfweliadau eraill â phobl sy'n ymwneud â'r rhaglen, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Arweinyddiaeth Tai Cymru a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau Cefnogi Pobl. Buom hefyd yn trafod â grwpiau o randdeiliaid allweddol, y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl a'r National Supporting Housing and Provider Network.

Arolwg o weithgarwch caffael awdurdodau lleol

Cynhaliom arolwg yn y 22 o awdurdodau lleol er mwyn deall sut maent yn caffael ac yn ariannu gwasanaethau Cefnogi Pobl. Buom hefyd yn casglu gwybodaeth am gontractau a gafodd eu hestyn ac ymarferion caffael llawn a gynhaliwyd yn ystod 2015-16. Buom hefyd yn casglu gwybodaeth am gynlluniau'r Grant Refeniw Cefnogi Pobl a etifeddwyd gan awdurdodau lleol.

Atodiad 2 – Adolygiadau a gwaith ymchwil blaenorol ynghylch y rhaglen Cefnogi Pobl

Ym mis Awst 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres newydd o drefniadau ar gyfer y Rhaglen er mwyn gweithredu argymhellion adolygiad Aylward a oedd wedi cael ei gomisiynu gan Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog Tai ac Adfywio ar y pryd. Yn yr Atodiad hwn, rhoddir disgrifiad o adolygiad Aylward, ac adolygiadau a gwaith ymchwil dilynol ynghylch y Rhaglen.

Er dechrau'r trydydd Cynulliad ym mis Mai 2011, mae sawl Gweinidog wedi bod yn gyfrifol am y Rhaglen:

- Huw Lewis (fel y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth): Mai 2011 - Mai 2013
- Carl Sargeant (fel y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau): Mai 2013 - Medi 2014
- Lesley Griffiths (fel y Gweinidog Cymunedau): Medi 2014 - Mehefin 2016
- Carl Sargeant (fel Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant): Mehefin 2016 - presennol

Adolygiad o'r Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru - 'Adolygiad Aylward' (2010)

Yn 2010, comisiynodd Llywodraeth Cymru Syr Mansel Aylward i gynnal adolygiad o'r Rhaglen. Pwrpas yr adolygiad oedd rhoi cyngor i'r Dirprwy Weinidog Tai ar y pryd, Jocelyn Davies, ynghylch y trefniadau cyflenwi, ac argymhell sut y gellir atgyfnerthu'r trefniadau hynny.

Gwnaed 25 o argymhellion yn 'Adolygiad Aylward' ynghylch dyrannu, llywodraethu a chyflenwi cyllid y Rhaglen. Yn wahanol i'r Alban a Lloegr, cynghorai'r Adolygiad y dylid parhau i neilltuo'r grant ar wahân i Grant Cynnal Refeniw yr awdurdodau lleol. Ymhlith yr argymhellion allweddol eraill yr oedd cyfuno'r ddwy ffrwd ariannu ar wahân flaenorol i greu un grant, cynigion am fformiwla ariannu newydd a strwythur llywodraethu diwygiedig. Yr oedd y strwythur diwygiedig hwnnw yn cynnwys sefydlu Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl i roi cyngor a gwybodaeth annibynnol.

Rhoddai'r Adolygiad bwyslais cryf ar yr angen am ddull cydweithredol ar draws awdurdodau lleol, darparwyr tai a chymorth, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau prawf a sefydliadau eraill perthnasol, gyda 'phwyslais parhaol ar ddylunio a chynhyrchu ar y cyd'. Cynghorai'r adolygiad y dylid sefydlu pwyllgorau cydweithredol aml-sector o fewn terfynau pob awdurdod lleol. Dylai cynllunio, comisiynu, caffael a monitro gwasanaethau fod yn rhan o gylich gwaith y

pwyllgorau hynny. Gan gydnabod y potensial i weithio'n rhanbarthol, yn enwedig yr ymagwedd yng Ngwent a Gogledd Cymru, awgrymwyd yn yr adolygiad y gallai'r pwyllgorau cydweithredol lleol hyn weithredu fel dull dros dro o fwrw ymlaen â threfniadau trawsffiniol.

Cyflawnodd tair ffrwd waith y gwaith o weithredu argymhellion yr adolygiad, gan adrodd wrth Fwrdd Cynghori Cenedlaethol. Trefnwyd y ffrydiau gwaith hyn o dan y themâu canlynol: cyllid, llywodraethu ac ansawdd.

Cynllun Llywodraethu (2013)

Yn 2013, comisiynwyd UK Research and Consultancy Services Ltd gan Lywodraeth Cymru i lunio ystod o opsiynau llywodraethu hirdymor ar gyfer Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol. Ceisiai'r adolygiad ymdrin â'r heriau a nodwyd yn gysylltiedig â chael corff cydweithredol anghyfansoddiadol yn gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant yn gysylltiedig â grant a weinyddir gan awdurdodau lleol. Datblygwyd tri opsiwn drwy'r adolygiad:

- Opsiwn un - ffocws cryfach ar lywodraeth leol, ynghyd â dyletswydd statudol i ymdrin ag anghenion 'Cefnogi Pobl'
- Opsiwn dau - rhoi sail statudol i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, neu eu datblygu'n endidau cyfreithiol
- Opsiwn tri - datblygu cyfuniad o Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi'u sefydlu drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ond yn gysylltiedig ag amodau grant cyfreithiol-rwym y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni, sydd yn rhoi awdurdod a grym gwirioneddol i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.

Ffafiwyd opsiwn 3 gan ei fod yn ei gwneud hi'n bosibl i gadw cyllid Cefnogi Pobl o fewn llywodraeth leol, ond gydag amodau cyfreithiol a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ei wario'n unol â chynllun strategol wedi'i ddatblygu gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Byddai rolau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cael eu sefydlu drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, yn enwedig yr egwyddor sylfaenol mai corff cydweithredol, aml-sector yw'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

Adolygiad annibynnol o Flwyddyn Drosiannol y Rhaglen Cefnogi Pobl (2014)

Ar y cyd â Shelter Cymru, comisiynwyd Miller Research Ltd gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o'r Rhaglen Cefnogi Pobl ar ôl trosglwyddo'r Rhaglen honno i strwythurau newydd yn 2012. Nod yr ymchwil oedd adolygu'r strwythurau amrywiol a oedd yn sail i'r Rhaglen Cefnogi Pobl ers ail-lansio a gweithredu'r rhaglen ym mis Awst 2012, a gwneud argymhellion ynghylch dyfodol y strwythurau hynny.

Dyma brif ganfyddiadau'r adolygiad:

- roedd y ddealltwriaeth ynghylch rôl y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ac ymrwymiad rhai o'i aelodau yn amrywio;
- teimlad bod y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl wedi rhoi gormod o sylw i fanylion gweithredol y Rhaglen, yn hytrach na rhoi arweiniad;
- yr oedd ansicrwydd ynghylch rôl a chylch gwaith Bwrdd Llywio'r Rhaglen, ac awgrymwyd ei fod yn ailadrodd llawer o'r trafodaethau o oedd yn cael eu cynnal yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl;
- er bod hynny'n cael ei ystyried yn bwysig, yr oedd diffyg eglurder ynghylch aelodaeth, allbwn, graddfeydd amser ac atebolrwydd y ffrydiau gwaith;
- yr oedd diffyg eglurder ynghylch swyddogaeth y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a'r perfformiad a ddisgwylwyd ganddynt;
- ystyriwyd nad oedd gan Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol rym neu awdurdod digonol, ac nid oedd digon o ddealltwriaeth o'r rhaglen er mwyn craffu arni a'i herio;
- roedd Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi cynyddu'r fiwrocratiaeth a llwyth gwaith yr aelodau;
- yr oedd yr achosion o gomisiynu'n rhanbarthol yn amrywio, ac roedd trefniadau'r gorffennol ar gyfer y Rhaglen ym mhob rhanbarth yn dylanwadu ar hynny, gyda mwy o weithgarwch mewn ardaloedd lle'r oedd traddodiad o waith rhanbarthol;
- bu'r rhan fwyaf o Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn ymwneud â datblygu prosesau a swyddogaethau swyddfa gefn cyson, yn hytrach na datblygu gwasanaethau rhanbarthol;
- er bod rôl y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol yn cael ei hystyried yn hollbwysig, roedd y rôl honno'n amrywio ac roedd angen ei hegluro'n well; ac
- roedd sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn her.

Gwnaed sawl argymhelliad yn yr adolygiad ynghylch sut y gellid gwella'r rhaglen ar sail y canfyddiadau hyn yn y meysydd a ganlyn:

- Strwythurau
- Gweledigaeth strategol
- Dyfodol y Bwrdd Llywio a'r Ffrydiau Gwaith
- Cyfleoedd i gynyddu dylanwad Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol
- Cysylltiadau ar draws polisïau â'r agenda
- Aelodaeth a Chadeiryddiaeth y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol
- Rôl a swyddogaeth y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth

Supporting People programme management charges within Supporting People service provision (Saesneg yn unig) (2015)

Comisiynwyd UK Research and Consultancy Services Ltd gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r defnydd o Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Daeth yr adolygiad hwn ar ôl arolwg cychwynnol yn 2013 a ddangosai amrywio helaeth yn natur a graddfa'r gwariant a elwir yn 'daliadau rheoli' mewn gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl ledled Cymru. Y nod oedd deall sut roedd taliadau'n cael eu codi, yr hyn yr oeddent yn ei gynnwys, a oedd hynny'n cydymffurfio â chynlluniau eraill a ariennir drwy grant, a'r graddau yr oeddent yn gyson â pholisi rheoli grantiau Llywodraeth Cymru.

Dyma oedd prif ganfyddiadau'r adroddiad:

- roedd y swm cyfartalog a godwyd fel taliadau rheoli mewn Prosiectau Cefnogi Pobl yng Nghymru yn gyferth ag oddeutu 10-15% o gyfanswm cyllid prosiectau;
- roedd taliadau prosiect yn amrywio rhwng 1.4% a 37% ar bennau eithaf y sbectwm;
- amcangyfrifir bod £12 miliwn - £18 miliwn yn cael ei wario ar daliadau rheoli bob blwyddyn;
- mae arferion yn gysylltiedig â thaliadau rheoli yn amrywio'n helaeth, ac fe geir diffyg eglurder cyffredinol a diffyg cytundeb ynghylch natur y gwariant a ddylai gael ei gynnwys fel 'tâl rheoli';
- prin iawn yw'r awdurdodau a chanddynt bolisïau diffiniedig ynghylch taliadau rheoli, ac ymddengys fod llawer ohonynt yn ymdrin â'r mater mewn modd ad hoc;

- ceir rhywfaint o dystiolaeth fod ymagweddau at daliadau rheoli yn newid o ganlyniad i'r toriadau diweddar i gyllideb y rhaglen; ac
- ychydig iawn o wargedau a geir o'r cyllid grant, naill ai drwy godi taliadau rheoli uchel neu drwy ddulliau eraill.

Argymhellai'r adroddiad y canlynol:

- datblygu cyfres o egwyddorion dylunio ar gyfer y gyfundrefn taliadau rheoli o fewn y rhaglen;
- llunio diffiniad o'r hyn y dylid ei gynnwys fel tâl rheoli, gan ystyried gwaith blaenorol ar y pwnc hwn;
- bod Llywodraeth Cymru yn pennu cap uchafswm ar gyfer taliadau rheoli, sef dim mwy na 10% o'r grant net i ddarparu;
- dylid gweithredu'r cap yn unol â'r egwyddor 'cydymffurfio neu esbonio' er mwyn cyfuno tryloywder ac eglurder ag elfen o hyblygrwydd; ac
- wrth fonitro a rheoli taliadau rheoli, dylid defnyddio'r trefniadau presennol hyd y bo modd.

Cefnogi Pobl: Gwasanaethau Pobl Hŷn (2016)

Amlygai adolygiad Aylward bryder bod pobl dros 55 oed (50 mewn rhai achosion) ledled Cymru sy'n byw mewn tai gwarchod, yn derbyn gwasanaethau Cefnogi Pobl yn ddiofyn, neu â hawl ddiofyn i dderbyn y gwasanaethau hynny waeth beth fo lefel eu hangen. Canlyniad hyn oedd sefyllfa lle nad oedd pobl â lefel uchel o anghenion, nad oeddent yn byw mewn llety gwarchod, yn derbyn y cymorth priodol. Argymhellai'r adolygiad y dylai gwasanaethau i bobl hŷn a ariennir drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl fod ar gael i unrhyw un, lle bynnag yr oeddent yn byw.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ymchwil a gynhaliwyd gan fyfyrwr PhD, a anelai i:

- archwilio'r modd yr oedd gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl hŷn drwy Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ym mhob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol;
- asesu a oedd gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai wedi symud o fod yn seiliedig ar ddeiliadaeth i fod yn seiliedig ar angen; ac
- archwilio unrhyw gamau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i hyrwyddo symud yn effeithiol o wasanaethau seiliedig ar ddeiliadaeth tuag at wasanaethau seiliedig ar anghenion.

Casgliad yr astudiaeth oedd bod swm sylweddol o wasanaethau a ariennir yn benodol drwy Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn dal yn seiliedig ar ddeiliadaeth a bod y cynnydd yn araf ac anghyson. Amlygai hefyd fod dryswch ynghylch ystyr yr argymhelliad, a'r camau yr oedd angen eu cymryd er mwyn ei fodloni. Mewn rhai ardaloedd, canfu'r astudiaeth fod rhai'n tybio'n anghywir fod yr argymhelliad eisoes wedi'i weithredu. Gwelwyd hefyd fod heriau'n codi o ran adnoddau wrth geisio darparu gwasanaethau i'r holl bobl hŷn cymwys mewn rhai ardaloedd gwledig neu anghysbell.

Argymhellai'r astudiaeth y dylai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol gydweithio â rhan deiliaidi lunio amserlenni ar gyfer gweithredu gwasanaethau niwtral o ran deiliadaeth. Argymhellai hefyd y dylid monitro cynnydd mewn modd mwy cyson, ac y dylai Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol gynnwys adran benodol ar roi'r newyddion diweddaraf i Lywodraeth Cymru ynghylch cynnydd. Ymhlith rhai o'r argymhellion eraill ynddi, awgrymai'r astudiaeth hefyd y byddai'n fuddiol i awdurdodau lleol a darparwyr sefydlu gweithgor i archwilio modelau a allai lwyddo mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig.

Prosiect Dichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl (2016)

Ariannwyd yr astudiaeth ddichonoldeb hon ar y cyd gan yr UK Economic and Social Research Council a Llywodraeth Cymru.

Nod cyffredinol y prosiect oedd archwilio'r modd y gallai cysylltu data gyfrannu at waith gwerthuso'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Er bod amrywiaeth o heriau'n bodoli o hyd, casgliad yr astudiaeth oedd bod modd cynnal gwerthusiad meintiol llawn drwy gysylltu data.

Argymhellai'r astudiaeth y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid er mwyn cynnal gwerthusiad meintiol llawn o'r Rhaglen Cefnogi Pobl ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru drwy gysylltu data gweinyddol arferol. Ochr yn ochr â hynny, argymhellai'r astudiaeth hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu astudiaeth ansoddol er mwyn helpu i roi esboniad pellach o unrhyw batrymau a welir yn y data meintiol, yn ogystal â sefydlu model i osod budd yn erbyn costau, fel bo modd amcangyfrif budd net y rhaglen. Er mwyn darparu'r set ddata safonedig angenrheidiol a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl i gysylltu data, argymhellai'r astudiaeth y dylid cynnwys gofynion data ychwanegol ar y daenlen data Deilliannau Cefnogi Pobl a oedd ar ganol cael ei hailddylunio. Argymhellai'r astudiaeth hefyd y dylid gwneud rhannu'r data hyn yn orfodol drwy delerau ac amodau'r grant Cefnogi Pobl.

Atodiad 3 – Enghreifftiau o ymagweddau rhanbarthol at brosesau rheoli rhaglen craidd

Yn ystod ein gwaith maes buom yn casglu tystiolaeth o waith a phrosiectau cydweithredol o fewn y rhanbarthau. Roedd y dystiolaeth o brosiectau gwirioneddol ranbarthol yn gymharol brin n (**Bocs 4** ar dud 29). Fodd bynnag, gwelsom nifer fwy o enghreifftiau lle'r oedd ymagweddau cyffredin wedi cael eu mabwysiadu a brosesau craidd ac adolygiadau gwasanaeth (**Bocs A1** isod).

Bocs A1: Enghreifftiau o waith rhanbarthol i ddatblygu ymagweddau cyffredin at brosesau craidd a chyd-adolygiadau

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru

- Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn casglu ac yn rheoli data ar ddeilliannau ac yn cyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru ar ran pob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.
- Mae Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cynhyrchu llyfryn sy'n disgrifio effeithiau'r Rhaglen ar fywydau unigol.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint wedi adolygu gwasanaethau ar y cyd.
- Cytundeb partneriaeth is-ranbarthol rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gyflawni'r Rhaglen Ailsefydlu Syriaid yn y lleoliadau hyn.
- Cytunodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfres o gamau i'w cymryd ar draws yr awdurdodau lleol sydd yn rhan ohono, gan gynnwys adolygiadau gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod yr holl achosion newydd a dderbynnir i'r gwasanaethau pobl hŷn yn niwtral o ran deiliadaeth erbyn 31 Mawrth 2016, a bod yr holl wasanaethau i bobl hŷn a ariennir drwy'r Rhaglen yn niwtral o ran deiliadaeth erbyn 31 Mawrth 2017.
- Sefydlodd y Pwyllgor Is-grŵp hefyd i edrych ar wasanaethau i rai ag anableddau dysgu a ariennir drwy'r Rhaglen. Dyma oedd amcanion y Grŵp:
 - edrych ar y cyllid cyfredol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu, ac asesu a yw'r gwasanaethau a ariennir yn wasanaethau cymwys;
 - dadansoddi'r modd y mae gwasanaethau anableddau dysgu cyfredol yn gysylltiedig â'r agenda atal digartrefedd a threchgu tlodi; a
 - dysgu yn sgil arfer gorau pob awdurdod.
- Yn adroddiad Is-grŵp y PCRh ym mis Gorffennaf 2016, gwnaed tri argymhelliad. Un o'r argymhellion oedd cyflawni gwaith pellach ar wasanaethau i rai ag anableddau dysgu a ariennir drwy'r Rhaglen yng Ngogledd Cymru. Derbyniodd y Pwyllgor Cydweithredol yr argymhellion.

Bocs A1: Enghreifftiau o waith rhanbarthol i ddatblygu ymagweddau cyffredin at brosesau craidd a chyd-adolygiadau

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent

- Mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent wedi llunio llawlyfr sy'n disgrifio effaith y Rhaglen ar fywydau unigolion.
- Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent er mwyn rhoi 'trosolwg iddo o ddarpariaeth tai â chymorth a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ar draws y rhanbarth i bobl ag Anableddau Dysgu'. Yn gynnar yn 2016-17, derbyniodd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, ynghyd ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr holl awdurdodau lleol perthnasol, holl argymhellion y grŵp.
- Roedd rhaglen waith Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent ar gyfer 2014-15 yn rhoi'r flaenoriaeth i graffu ar wasanaethau i bobl hŷn a ddarperir ar draws y rhanbarth, ac fel dyddiad terfyn nodai y dylai'r holl wasanaethau i bobl hŷn fod yn niwtral o ran deiliadaeth erbyn diwedd 2016, yn unol ag argymhelliad adolygiad Aylward yn 2010. Fodd bynnag, dim ond dau o'r pum awdurdod lleol sydd wedi bodloni'r dyddiad terfyn hwn, ond rhagwelir y byddant oll wedi gwneud hynny erbyn mis Ebrill 2018.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

- Mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu offeryn casglu data ar-lein safonedig, ac mae'r awdurdodau lleol sydd yn rhan o'r pwyllgor yn rhannu gwybodaeth ac yn cynorthwyo'r naill a'r llall a'r broses o gasglu gwybodaeth a fformadu.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf

- Mae'r ddau awdurdod lleol sydd yn rhan o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf wedi defnyddio'r un dull o gynnal adolygiadau o berthnasedd strategol gwasanaethau. Hefyd, mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf wedi llunio canllawiau rhanbarthol ar ddeilliannau ac yn gweithredu Grŵp Cynllunio Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Sefydlwyd Grŵp Pobl Hŷn gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf ar ffurf grŵp gorchwyl a gorffen, er mwyn rheoli a monitro:
 - y broses o ailgyflunio gwasanaethau pobl hŷn ar draw Cwm Taf, fel eu bod yn seiliedig ar anghenion yn hytrach na deiliadaeth; a
 - datblygu dull cyson o gomisiynu gwasanaethau i bobl hŷn.

Bocs A1: Enghreifftiau o waith rhanbarthol i ddatblygu ymagweddau cyffredin at brosesau craidd a chyd-adolygiadau

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Y Fro a Chaerdydd

- Ceir cytundeb mewn egwyddor rhwng Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg i adolygu gwasanaethau ar y cyd, ond am amryw o resymau maent yn dal heb gwblhau unrhyw un o'r adolygiadau hynny. Yn ogystal a hyn, mae'r ddau awdurdod lleol hyn wedi datblygu dull ar y cyd o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, a elwir yn Fframwaith Cyfranogiad a Chynnwys Rhanbarth y Fro a Chaerdydd.
- Mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Y Fro a Chaerdydd wedi sefydlu is-grŵp comisiynu er mwyn canfod ac ymdrin â ffactorau sy'n atal comisiynu gwasanaethau'n rhanbarthol. Ceir trafodaeth barhaus ynghylch comisiynu gwasanaethau cam-drin domestig ar y cyd.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

- Mae'r Pwyllgor yn datblygu ymagwedd ranbarthol at ddadansoddi anghenion, pennu blaenoriaethau a sganio'r gorwel, ac mae'r Pwyllgor yn rhagweld y bydd hyn yn sylfaen ar gyfer cyflenwi gwasanaethau rhanbarthol yn y dyfodol.
- Mae'r awdurdodau sydd yn rhan o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn defnyddio un dull o gasglu data er mwyn monitro contractau.

Atodiad 4 – Dyraniadau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol 2013-14 hyd 2016-17

Mae **Dangosyn A1** isod yn dangos cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol ar gyfer y Rhaglen rhwng 2013-14 a 2016-17, yn nhermau arian parod. Nid ydym wedi gallu casglu ffigurau manwl gywir ar gyfer 2012-13 oddi wrth Lywodraeth Cymru. Honno oedd y flwyddyn pan gyfunwyd y Grant Cefnogi Pobl a'r Grant Refeniw Cefnogi Pobl i greu'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl newydd.

Nid yw cyfanswm yr arian a ddyrannwyd i'r awdurdodau lleol yn cyd-fynd yn union â chyfanswm cyllideb y rhaglen, gan fod swm wedi'i frigidori o'r gyllideb honno i ariannu gwaith ychwanegol i gefnogi'r rhaglen. Er enghraifft, yn 2016-17, cafodd oddeutu £800,000 ei frigidori o gyfanswm cyllideb y rhaglen o £124.5 miliwn.

Mae **Dangosyn 5** ym mhrif gorff yr adroddiad yn cymharu dyraniad gwirioneddol yr awdurdodau lleol yn 2016-17 a'r hyn y byddent wedi'i dderbyn fel arall, pe bai Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithredu'r fformiwla ariannu a weithredwyd ganddi yn 2012-13 a 2013-14 - ond a gafodd ei hatal wedi hynny. Bwriadwyd i'r fformiwla gefnogi trefniadau i aiddosbarthu cyllid i'r ardaloedd daearyddol ac ynddynt y mwyaf o angen.

Dangosyn A1: Dyraniadau cyllid awdurdodau lleol o'r rhaglen Cefnogi Pobl, 2013-14 hyd 2016-17

Awdurdod Lleol	2013-14 (£ miliynau)	2014-15 (£ miliynau)	2015-16, 2016-17 a 2017-18 (£ miliynau bob blwyddyn)
Ynys Môn	3.05	2.88	2.64
Gwynedd	5.92	5.61	5.04
Conwy	7.57	7.18	6.45
Sir Ddinbych	6.44	6.11	5.48
Sir y Fflint	6.82	6.46	5.80
Wrecsam	5.84	5.53	4.98
Powys	6.03	5.72	5.13
Ceredigion	3.46	3.27	2.94
Sir Benfro	2.78	2.87	2.71

Awdurdod Lleol	2013-14 (£ miliynau)	2014-15 (£ miliynau)	2015-16, 2016-17 a 2017-18 (£ miliynau bob blwyddyn)
Sir Gaerfyrddin	6.77	6.86	6.49
Abertawe	14.62	14.61	13.81
Castell-nedd Port Talbot	4.93	5.07	4.79
Pen-y-bont ar Ogwr	6.10	6.15	5.81
Bro Morgannwg	3.65	3.68	3.46
Rhondda Cynon Taf	9.44	9.59	9.05
Merthyr Tudful	2.09	2.24	2.12
Caerffili	6.54	6.59	6.23
Blaenau Gwent	2.61	2.69	2.55
Torfaen	3.65	3.63	3.43
Sir Fynwy	2.17	2.15	2.03
Casnewydd	6.67	6.73	6.36
Caerdydd	19.07	18.11	16.26
Cyfanswm	136.33	133.80	123.69

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

Atodiad 5 – Newidiadau i'r gwariant a gynlluniwyd ar draws y categorïau cleient 2013-14 hyd 2016-17

Er i'r rhaglen Cefnogi Pobl newydd gael ei lansio yn 2012-13, nid yw Llywodraeth Cymru ond wedi gallu darparu cynlluniau gwariant manwl ar gyfer y flwyddyn 2013-14 ac ar ôl hynny. Yn **Nangosyn A2** isod gwelir y newidiadau mewn gwariant ar draws y categorïau cleient rhwng 2013-14 a 2016-17. Yn **Nangosyn 4** ym mhrif gorff yr adroddiad, gwelir y categorïau cleient lle cafwyd y gostyngiad mwyaf yn nhermau arian parod rhwng 2013-14 a 2016-17.

Ceir rhai mân wahaniaethau rhwng cyfanswm y ffigurau gwariant a adroddwyd o'r cynlluniau gwariant ar gyfer 2013-14 a 2014-15, o'u cymharu â dyraniadau gwirioneddol yr awdurdodau lleol (**Atodiad 4**).

Dangosyn A2: Gwarant y rhaglen Cefnogi Pobl fesul categori cleientiaid rhwng 2013-14 a 2016-17

Categori cleientiaid	2013-14 (£ miliynau)	2014-15 (£ miliynau)	2015-16 (£ miliynau)	2016-17 (£ miliynau)
Gwasanaethau larwm (gan gynnwys mewn gofal gwarchodol/ ychwanegol)	4.17	3.66	2.44	2.28
Cymorth cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd	21.30	14.11	14.00	15.94
Pobl â salwch cronig	0.18	0.19	0.17	0.13
Pobl ifanc sy'n gadael gofal	0.84	0.94	0.75	0.68
Pobl sengl sydd angen cymorth (25-54)	5.31	5.07	5.65	4.29
Pobl ag anableddau corfforol ac/neu synhwyraidd	1.84	1.71	1.45	1.51
Pobl ag anableddau dysgu	36.43	35.59	31.74	30.57
Pobl â hanes o drosedd yn y gorffennol	2.89	2.82	2.63	2.44

Categori cleientiaid	2013-14 (£ miliynau)	2014-15 (£ miliynau)	2015-16 (£ miliynau)	2016-17 (£ miliynau)
Pobl â phroblemau yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau a sylweddau anwedol)	4.64	4.77	4.43	3.96
Pobl ifanc ag anghenion cymorth (16-24)	14.81	14.62	13.46	13.16
Menywod sy'n profi camdriniaeth ddomestig	9.99	9.83	9.08	9.04
Teuluoedd sydd angen cymorth	4.64	4.48	4.12	4.23
Pobl â phroblemau iechyd meddwl	14.55	14.45	13.72	13.78
Teuluoedd un rhiant sydd angen cymorth	1.11	1.06	0.92	1.07
Pobl dros 55 oed sydd angen cymorth (heb gynnwys gwasanaethau larwm)	11.90	11.96	11.23	11.65
Pobl â phroblemau yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau (alcohol)	1.33	1.42	1.40	1.51
Dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig	0.21	0.21	0.25	0.29
Pobl â statws ffoadur	0.31	0.29	0.29	0.44
Pobl ag anhwylderau datblygu	0.14	0.25	0.18	0.20
Gwariant nad oes cysylltiad uniongyrchol rhyngddo a chategori yn y cynllun gwariant ¹	n/a	6.61	5.68	6.43
Cyfanswm	136.68	134.13	123.69	123.69

Nodyn

¹ Ni chafodd y categori hwn ond ei gyflwyno yn 2014-15.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

Atodiad 6 – Enghreifftiau ar sail astudiaeth achos o effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Ngwent a Gogledd Cymru

Rhoddodd Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Gwent a Gogledd Cymru enghreifftiau i ni o astudiaethau achos lle adroddwyd ystod o ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl sy'n derbyn cymorth drwy'r Rhaglen. Mae'r naill bwyllgor a'r llall wedi cyhoeddi adroddiadau sy'n anelu i amlygu nid yn unig effaith gymdeithasol a dynol y Rhaglen, ond hefyd effaith economaidd y Rhaglen a'i heffeithiolrwydd o ran cost. Gwnaed hyn drwy gymharu costau ymyraethau Cefnogi Pobl unigol â chostau gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cyffredinol ar gyfer ystod eang o ddigwyddiadau fel ymdrin â digwyddiad trosedd, achosion pan alwyd yr ambiwlans allan, cais digartrefedd neu achos lle trowyd pobl allan o'u tŷ. Ym **Mocs A2** isod rydym wedi cynnwys detholiad o'r astudiaethau achos a ddarparwyd i ni.

Bocs A2: Astudiaethau achos sy'n rhoi enghreifftiau o effaith y Rhaglen ar unigolion

Astudiaeth achos pobl hŷn

Rhanbarth: Gogledd Cymru

Y Sefyllfa: Teimlai Gladys yn unig iawn ar ôl marwolaeth ei phartner. Symudodd Gladys i gynllun tai gwarchod gan ei bod am deimlo'n rhan o'r gymuned a gwella ei hiechyd a'i lles.

Deilliannau: Mae bywyd Gladys wedi newid yn sylweddol ers i'r cydgysylltydd byw'n annibynnol ei hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau. Mae hyn wedi cynnwys cymryd rhan mewn cwrs cynhwysiant digidol a ffotograffiaeth a arweiniodd at ennill gwobr a chael ei chyfweld ar BBC Radio Wales i drafod ei phrofiadau cadarnhaol

Costau Cefnogi Pobl: £11.10 yr wythnos

Astudiaeth achos cam-drin domestig

Rhanbarth: Gwent

Y Sefyllfa: Roedd Fiona wedi bod yn dioddef camdriniaeth ddomestig, ac roedd arni angen cymorth gyda sgiliau bywyd, gan gynnwys coginio a siopa ar gyllideb, gwneud cais am denantiaeth a'i rheoli, cadw tŷ, hawlio budd-daliadau a phroblemau rhianta.

Deilliannau: Mae Fiona wedi bod yn byw'n annibynnol ers blwyddyn bron, ac nid yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â'i hachos mwyach. Mae hi ar y rhestr aros i gael tŷ a bron wedi cwblhau ei chymwysterau TGAU mewn mathemateg a Saesneg. Mae Fiona yn bwriadu parhau â'i haddysg ac yn ymgeisio am gyrsiau eraill a gwaith gwirfoddol

Costau Cefnogi Pobl: £18,444 am chwe mis o gymorth

Bocs A2: Astudiaethau achos sy'n rhoi enghreifftiau o effaith y Rhaglen ar unigolion

Astudiaeth achos camddefnyddio sylweddau

Rhanbarth: Gogledd Cymru

Y Sefyllfa: Mae gan Tracey hanes o gamddefnyddio cyffuriau ers cyfnod hir ac mae'n gweithio i'w rhyddhau ei hun o grafangau heroin, ac i gael cystodaeth lawnamser ar ei phlant.

Deilliannau: Mae Tracey wedi dangos ei bod yn gweithio tuag at fyw'n annibynnol drwy fynd i sesiynau cymorth wythnosol, talu rhent personol a chadw at reolau'r cynllun. Mae ei hiechyd corfforol wedi gwella ac mae Tracey yn cadw cysylltiad â'i holl blant ac yn eu gweld ar benwythnosau.

Costau Cefnogi Pobl: £218 yr wythnos

Astudiaeth achos unigolyn sy'n gadael gofal

Rhanbarth: Gwent

Y Sefyllfa: Roedd Megan wedi gadael gofal ac wedi dod yn ddigartref, ac mewn perygl o gael ei hecsploetio'n rhywiol. Nid oedd gan Megan ddigon o sgiliau i fyw'n annibynnol, ac roedd ganddi hanes o hunan-niwed, gorbryder ac iselder, lefel isel o hunan-barch a diffyg cymhelliant.

Deilliannau: Symudodd Megan i brosiect tai â chymorth a derbyniodd gymorth i ddatblygu ei sgiliau cyllidebu a byw'n annibynnol. Mae ei sgiliau hunanofal, ei hunan-barch, ei hyder a'i chymhelliant oll wedi gwella, ac mae Megan ar hyn o bryd yn aros i gael ei hatgyfeirio i'r panel symud ymlaen, fydd yn ei galluogi i sicrhau ei thenantiaeth ei hun

Costau Cefnogi Pobl: £44,404 i gyd

Astudiaeth achos cymorth cyffredinol fel y bo'r angen

Rhanbarth: Gogledd Cymru

Y Sefyllfa: Profodd Linda broblemau personol yn ystod ei phlentyndod, ac yn sgil hynny, treuliodd gyfnodau mewn cartrefi gofal ac mewn perthnasoedd lle'r oedd yn cael ei cham-drin. Roedd Linda wedi datblygu problem ddifrifol yn cronni eitemau, ac roedd perygl iddi gael ei throï allan o'i chartref oherwydd y cyflwr oedd arno.

Deilliannau: Ar ôl derbyn cymorth fel y bo'r angen, llwyddwyd i osgoi adfeddiannu, ac mae Linda bellach yn rheoli ei llety yn dda iawn.

Costau Cefnogi Pobl: £1,040

Astudiaeth achos iechyd meddwl

Rhanbarth: Gwent

Y Sefyllfa: Mae gan Clive sgitsoffrenia paranoiaidd, ac roedd angen cymorth arno i reoli ei denantiaeth a'i ohebiaeth, ac i fyw bob dydd. Roedd angen cymorth arno hefyd i ymdrin â'i gamdriniaeth o alcohol a chyffuriau ac i wella ei iechyd corfforol a meddyliol cyffredinol.

Deilliannau: Ar ôl cael cymorth, mae Clive wedi gallu cadw ei denantiaeth a chysylltu â staff a gwasanaethau. Mae'n gweithio tuag at leihau ei gamddefnydd o sylweddau, ac yn canolbwyntio ar gynnal ei iechyd corfforol a'i iechyd meddwl.

Costau Cefnogi Pobl: £ 120 yr wythnos yn barhaus

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls
in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru